



ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 461 Nadolig 2017/Ionawr 2018

Pris: 70c



urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Llywydd newydd Urdd Gobaith Cymru

Nia Hâf o Lanrug fydd Llywydd yr Urdd ar gyfer 2017/2018. Hi hefyd fydd Cadeirydd Bwrdd Syr IfanC, fforwm ieuenctid cenedlaethol yr Urdd, am y flwyddyn.

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Uwchradd Brynrefail, mae Nia bellach ar ei hail flwyddyn yn astudio Cymraeg, Theatr a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor.

Gan ymateb i'w phenodiad, dywedodd Nia,

"Mae'n ffrainc cael bod yn Llywydd yr Urdd a bod mewn safle sy'n fy ngalluogi i gyfarfod â phobl ifanc o bob cwr o Gymru, a thu hwnt. Dwi wrth fy modd yn clywed safbwyntiau gwahanol, a chroesawu pobl i rannu eu safbwyntiau ar rai o faterion pwysicaf ein cenedlaeth ni.

Dwi'n teimlo ei bod hi'n bwysig cydnabod bod gan bobl ifanc o bob cefndir yr hawl i farn ar bynciau sy'n effeithio arnynt. Mae Bwrdd Syr IfanC yn gweithredu mewn ffordd ysgafn sy'n llawn hwyl, ond yn trin a thrafod pynciau eang a phwysig.

Dwi'n bwriadu gwneud y mwyaf o fy mlwyddyn fel Llywydd. Er mor anodd fydd dilyn llwyddiant Llywyddion y gorffennol fel Siwan Dafydd a Dan Rowbotham, hoffwn ddiolch iddynt am feithrin fy niddordeb yn y Bwrdd ers y cychwyn cyntaf, a fy ngalluogi i gyrraedd y pwynt yma.



Wrth i ni agosáu at ganmlwyddiant yr Urdd yn 2022, rwy'n awyddus i barhau â thestun sydd eisoes wedi cychwyn cael ei drafod - dathlu! Er ei bod yn bwysig trafod materion dwys sy'n effeithio arnom, dwi'n teimlo bod angen i ni edrych ymlaen at ddathlu hefyd - does yna ddim yn bod ar ddathlu ein llwyddiannau fel cenedl law yn llaw â thrafod materion difrifol er mwyn ceisio eu gwella.

Ni, y bobl ifanc, yw hanfod yr Urdd. Rhaid i ni beidio â gwastraffu ein hieuenctid gan obeithio am gael lleisio ein barn fel oedolion. Mae'r Urdd yma i wneud y mwyaf o'n syniadau, a rhoi llwyfan diogel i'n lleisiau gael eu gwerthfawrogi. Rhaid defnyddio ein lleisiau nawr, gan fanteisio ar ein hieuenctid, ein creadigrwydd, ein Bwrdd a'n cyfoedion er mwyn sicrhau dyfodol lle gall lleisiau pawb gael eu clywed."

Ewch i <http://www.urdd.cymru/cy/prosiectau/blog-y-llywydd/> i wyllo flog cyntaf y Llywydd newydd

Mae Bwrdd Syr IfanC yn cynnig cyngor ac arweiniad i Gyngor yr Urddar faterion cenedlaethol, yn arbennig y gweithgareddau i bobol ifanc rhwng 15 a 25 oed. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi cyfle i'r bobol ifanc gynnal trafodaeth ar beth sydd yn bwysig i bobl ifanc (15 i 25 oed) er mwyn datblygu'r Urdd.

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr
a chefnogwyr yr "Eco".*

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

RHIF 461
Nadolig 2017/Ionawr 2018
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)
NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com
PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Chwefror	Sul 21 Ionawr	Gwener 2 Chwefror	Waunfawr
Mawrth	Sul 18 Chwefror	Gwener 2 Mawrth	Llanrug
Ebrill	Sul 18 Mawrth	Iau 29 Mawrth*	Cwm y Glo
Mai	Sul 22 Ebrill	Gwener 4 Mai	Deiniolen
Mehefin	Sul 20 Mai	Gwener 1 Mehefin	Brynrefail
Gorffennaf/Awst	Sul 22 Gorffennaf	Gwener 3 Awst	Bethel

*i'w gadarnhau

LLYTHYRAU

Annwyl Siôn Corn
Ydych chi dal yn chwilio am anrhegion addas i siaradwyr Cymraeg?
Ydw i'n gallu awgrymu Aelodaeth Oes Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg?
Mae'n anrheg fydd yn cael ei werthfawrogi sawl gwaith y flwyddyn
wrth i Tafod y Ddraig, cylchgrawn gwych y Gymdeithas, gael ei
ddosbarthu.
Mae'n hawdd iawn trefnu gan lenwi ffurflen ar lein a thalu cyfraniad
bach bob mis. Ewch i weld @ <http://cymdeithas.cymru/ymaelodi>
Cred di fi, mae'n rhad iawn hefyd ac yn fuddsoddiad da.
Gall hyn fod i berson ifanc sy'n falch iawn o siarad Cymraeg ond
efallai byddai'n dda ar gyfer rhiant neu mamgu/nain sydd gwneud
cymaint dros yr iaith? Bydden nhw wrth eu boddau yn trin a
thrafod yr ymdrechion i gadw'r iaith pan fo gyfle. Dych chi byth yn
rhy hen i fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith!
Siôn, os dych chi eisiai i bobl ddechrau'r flwyddyn newydd gan
ddechrau bob sgwrs yn Gymraeg - rhowch neges gref iddyn nhw.
Rhowch Aelodaeth Oes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Rhowch
obaith am ddyfodol ein hiaith. Diolch yn fawr iawn.

Steffan Webb
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Grantiau Tyfu'n Wyllt

Annwyl gyfaill
Oes gennych chi syniad cyffrous ar gyfer prosiect sy'n dod â phobl
at ei gilydd trwy weithgareddau yn eu cymuned tra ar yr un pryd yn
dathlu blodau gwyllt a phlanhigion brodorol y DU?
Os mai "oes" yw'r ateb mae Tyfu'n Wyllt yn cynnig grantiau o
£2,000 - £4,000 i grwpiau a phrosiectau sydd â syniadau creadigol.
Grwpiau cymwys i ymgeisio yw grwpiau ieuencid, ysgolion
uwchradd, cynghorau plwyf, tref a chymuned, awdurdodau a
byrddau iechyd a charchardai.
Mae gennych tan y 15fed o Ionawr 2018 i gyflwyno cais ac mae mwy
o fanylion i'w gweld ar wefan Tyfu'n Wyllt ar www.growwilduk.com/cy

Pob lwc
Maria Golightly
Rheolwr Cymru Tyfu'n Wyllt

ARVONIA



- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

Prisiau'r "Eco"

Drwy'r post (Prydain yn unig) £21.00 am flwyddyn
Drwy ebost (rhywle yn y byd) £7.70 am flwyddyn

Yn ystod y mis aeth heibio

• Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad ar doriadau arfaethedig i wasanaethau ieuentid sy’n cynnwys 42 o Glybiau Ieuentid led-led y sir, a chymorth ariannol i’r Urdd, Geidiau, Sgowntiaid a Chlybiau Ffermwyr Ifanc. Un o Undebau’r Ffermwyr yn ei ddisgrifio fel “gwybod pris popeth, ond gwybod gwerth dim.” Yr ymgynghoriad yn cau dri diwrnod cyn y Nadolig.

• Ddau ddiwrnod cyn cyhoeddi rhifyn diwethaf yr “Eco”, y fro gyfan yn dioddef stormydd o wyntoedd cryfion a glawogydd trwm. Yr ardal i gyd yn dioddef llifogydd, gyda ffyrdd ar gau a nifer o gartrefi wedi eu difrodi gan y dwr. Rhai yn cymharu’r digwyddiad i’r llanastr union bum mlynedd yn ol, ond nid yw’n ymddangos fod y difrod cynddrwg y tro hwn.

• Y Gyllideb yn addo pob math o welliannau i fywydau pobl – fel y buasai rhywun yn ei ddisgwyl gan unrhyw lywodraeth mewn grym. Ond y gwrth-bleidiau a nifer o sefydliadau ariannol yn hynod feirniadol, ac yn ei ddisgrifio fel ‘cyfle wedi ei golli’ i wella amgylchiadau byw. Amser a ddengys.

• Deuddeg o gwmnïau ffilmio ar gyfer gwahanol raglenni teledu, gan gynnwys ‘Flog It’ , ‘This Morning’ a ‘Bear Grylls’, yn defnyddio’r Wyddfa, a hynny yn ystod y misoedd diwethaf yn unig. Cadwriaethwyr ac amgylcheddwyr yn poeni fod rhoi cymaint o sylw i atyniadau’r Wyddfa ar gymaint o raglenni amrywiol yn sicr o ddenu rhai miloedd ychwanegol o ymwelwyr

i droedio’r mynydd yn ystod 2018. Mae’r mwyafrif o’r rhaglenni hyn i’w dangos yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn. Ond rheolwr Rheilffordd yr Wyddfa yn disgrifio’r sylw fel “very positive”. O gofio fod 260,000 o siwrneiau wedi eu gwneud yn ystod 2017, mae cynnydd yn y cyfanswm hwn yn golygu cynnydd mewn elw i’r cwmni. Diwedd y gan yw’r geiniog.

• ... ac o son am geiniogau – Sefydliad Joseph Rowntree yn datgan fod 14 miliwn o bobl Gwledydd Prydain yn byw mewn tlodi; cynnydd o 700,000 yn niferoedd plant a henoed. Yn yr un wythnos, mudiad Shelter yn dweud y bydd 128,000 o blant yn deffro’n ddigartref fore’r Nadolig; cynnydd o dros 60% ers 2011. Prif Swyddog Shelter yn ei alw yn ‘Sgandal Cenedlaethol’. Ac yn sgil llanastr y llywodraeth yn ceisio bargeinio ynglyn a Brexit, sylwebyddion gwleidyddol ac economaidd yn rhagweld degawd gythryblus yn wynebu pobloedd Prydain.

• Cyngor Gwynedd yn bwriadu defnyddio Cwmni Kingdom Security o St Helens i fod yn gyfrifol am ddirwyo rhai sy’n gadael sbwriel ar ein strydoedd. Dyma’r cwmni sydd eisoes yn gweithredu yn siroedd eraill gogledd Cymru, ac sy’n cael eu beirniadu’n hallt gan amryw oherwydd eu tactegau honedig i roi dirwyon o hyd at £75 am ollwng sbwriel. Mae grwp “North Wales against Kingdom Security” eisoes yn denu llawer o ddilynwyr.

BING

Dyma rai sylwadau ar ystyr yr enw:

Ran ystyron, tarawyd ar y canlynol:

Llychlynaid, gwledydd Denmarc a Sweden, crugyn, pentwr ŷd. Walter W. Skeat. An Etymological Dictionary of the English Language (1910) 60.

(1) dechrau suro, e.e. llefrith

(2) plwm sydd o ansawdd tu hwnt o dda ran ei wneuthuriad; Thomas Wrighton. Dictionary of Obsolete and Provincial English (1938) 211.

(a) Cruglwyth sy’n cynnwys cerrig, hyd yn oed bridd, coed, mater marwaidd, yn ogystal â thatws, ŷd a.y.y.b.; (b) odyn ffwrnes, ble llosgir golosg/sercol tra’n meddalau cerrig sydd hefo plwm ynddynt; (c) yng ngwlad Tseina dail hynod dendar, a berthyn i lwyni tyfu dail te; J.A. Simpson, E.S.C. Weiner. The Oxford English Dictionary (2) (1989) 203.

Albanaidd ran ei darddiad; pentwr metelig; gwastraff o’r mwynglawdd; Catherine Soanes, Angus Stevenson (Gol.) Concise English Oxford Dictionary (2004) 134.

Dafydd Gruffudd Ifan

Bydd cyfres newydd dan ofal Dafydd Gruffudd Ifan yn cychwyn yn rhifyn Chwefror 2018, sef ‘Pigion Byd Natur’. Diolch iddo am ei gyfres yn trafod gwahanol gyfeiriadau at yr Wyddfa, a chydymdeimlwn ag ef a’r teulu yn eu colled ddiweddar o golli mam.

Golygydd

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Daeth criw da ynghyd i 'r Llyfrgell yng Nghaernarfon i wrando ar Dafydd Glyn Jones yn trafod ambell i "Glasur a Chrair". Yn ei ffordd gartrefol ac unigryw ei hun fe aeth Dafydd ymlaen i ddarllen barddoniaeth a rhyddiaith rhai o'n hawduron a'n beirdd nad ydynt wedi gweld golau dydd ers blynddoedd lawer. Cawsom flas ar weithiau rhai fel Morgan Llwyd, Elis Wyn, Daniel Owen, Mynyddog, Twm o'r Nant a Goronwy Owen. Trwy ddyfalbarhad a gwaith ymchwil manwl Dafydd a'i wraig Gwawr mae'r perlau yma ar gael yn Yr Hen Lyfrau Bach a Cyfrolau Cenedl ac wedi eu hargraffu gan Wasg Dalen Newydd.

Diolchwyd i Dafydd am noson hynod o ddifyr ac addysgiadol.

Bydd cyfarfod nesaf y Cylch yn y flwyddyn newydd ar Ionawr 16eg, yr un amser a'r un lleoliad, pan gawn gwmni yr Athro Peredur Lynch yn trafod ei waith diweddaraf, "Caeth a Rhydd". Croeso cynnes i bawb. (£2 wrth y drws os nad ydych yn aelod)

Cynhelir pob cyfarfod yn Llyfrgell Caernarfon am 7.30 a dyma’r arlwy am y misoedd nesaf:

Ionawr 17: Yr Athro Peredur Lynch yn trafod ei gyfrol “Caeth a Rhydd”

Chwefror 20: Y Prifardd Rhys Iorwerth yn sôn am ei waith diweddaraf

Mawrth 20: Gwion Hallam, Bardd Coronog Eisteddfod Genedlaethol Môn

Cymdeithas Hanes Teuluoedd

Pob cyfarfod yn Llyfrgell Caernarfon am 7 o’r gloch

Ionawr 25: Parch Harri Parri “O Ben Cilan i Bombay”

Chwefror 22: Sue Thomas “Pwy oedd Owain Gwyrfai?”

Mawrth 22: Pawb â’i bwt gan aelodau’r gymdeithas

Ebrill 26: Y Rhyfel Mawr

Dim Sion Corn yn Chwefror

Ac fe glywaf pawb yn cytuno. Oherwydd dyma’r cyfnod ar ddechrau blwyddyn pryd y caiff yr henwr prysur gyfnod o orffwys cyn dechrau paratoi am y Nadolig nesaf.

Felly, er parch i wyliau haeddiannol Sion Corn, peidiwch da chi ac anfon lluniau ohonno i’w cynnwys yn rhifyn Chwefror. Siawns na fydd digon o ddigwyddiadau eraill wedi eu cynnal yn y fro yn ystod mis Ionawr sy’n haeddu sylw yn rhifyn cyntaf 2018 o’r “Eco”.



Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo 2017



Parhad LLANRUG

Cynhaliwyd yr Eisteddfod nos Wener, Tachwedd 24ain, yn neu-add Ysgol Brynrefail. Y beirniaid eleni oedd Siôn Elwyn (cerdd), Medi Wilkinson (llefaru), Chloe Roberts (dawnsio disgo) a

Dilwyn Hughes (dawnsio gwerin). Arweinyddion yr Eisteddfod oedd Haf Roberts, Ruth Rowlands ac Irfon Jones, gyda Jane Parry, Ruth Rowlands a Sian Wheway yn cyfeilio.

Canlyniadau
CANU AC OFFERYNNOL
Unawdau
Dosbarth Derbyn: 1af Mali, 2il Olivia, 3ydd Guto
Bl 1 + 2: 1af Meilir, 2il Lois, 3ydd Llew a Rebecca
Bl 3 + 4: 1af Owain, 2il Sioned, 3ydd Tomos
Bl 5 + 6: 1af Alaw Angharad, 2il Betsan, 3ydd Sara a Beca
Bl 7 – 9: 1af Tomi, 2il Buddug
Bl 10 – 13: 1af Leisa
Partion canu
Côr Dosbarth Meithrin: Côr Meithrin Ysgol Llanrug
Côr hyd at Fl 2: Côr Babanod Ysgol Llanrug
Côr Bl3 – 6: Côr Ysgol Gynradd Llanrug
Côr Uwchradd / Agored: Côr Llanrug
Cân Ysgafn / Grŵp Pop Cynradd: 1af Llewod Angylaidd, 2il Melltith
Cân Ysgafn / Grŵp Pop Uwchradd: 1af Siôn Land a'r Band

Piano - Cynradd: 1af Llio
Pres - Bl 7 – 9: 1af Ben, 2il Catrin
Bl 10 – 13: 1af Gethin
Telyn - Bl 7 - 9: 1af Beca
Chwyth - Cynradd: 1af Alaw, 2il Amelie
Bl 7 - 9: 1af Nanw
DAWNSIO
Dawnsio Disgo
Cynradd: 1af Grŵp 4, 2il Grŵp 3, 3ydd Grŵp 1 + Grŵp 2
Uwchradd: 1af Grŵp 5 / 1af Unigol: Erin Gwilym
Dawnsio Gwerin
Cynradd: 1af Grŵp Siôn a Now LLEFARU
Bl 1 + 2: 1af Efan, 2il Gruffudd, 3ydd Gwern
Bl 3 + 4: 1af Annest, 2il Sioned, 3ydd Llio
Bl 5 + 6: 1af Sara, 2il Luned, 3ydd Betsan ac Alaw
Bl 7 – 9: 1af Mared
Bl 10 – 13: 1af Leisa, 2il Beca
Parti Cynradd: 1af Parti Roli a'r Troli, 2il Nefi Blw, 3ydd Sws
Parti Uwchradd: 1af Parti Dolig, 2il Sesh Dolig

ENILLWYR TLYSAU
Cadair Lowri (unawd Bl1 + 2): Meilir
Cwpan W. Park Jones + rhodd o £10 (cyflwyniad llefaru/llafar cynradd): Sara
Tlws Bwlchgrwnnog + rhodd o £10 (perfformiad cerddorol cynradd): Alaw Angharad
Tlws er cof am Eddie a Moreen Lennon + rhodd o £10 (perfformiad cerddorol uwchradd): Tomi
Rhodd o £10 gan Haf Roberts (cyflwyniad llefaru/llafar uwchradd): Leisa
CANLYNIADAU LLÊN
Bl 3 + 4: 1af Efa Holdsworth, 2il Lili Jones, 3ydd Sioned Hughes
Bl 5 + 6: 1af Alisdair Howarth, 2il Alaw Marged, 3ydd Gwern Jones
Tlws y Llenor Cynradd (Bl 3 – 6): Alisdair Howarth
Bl 7: 1af Lowri Non Parry, 2il Emily Williams, 3ydd Elain Owen
Bl 8 + 9: 1af Iolo Morris, 2il Griff Jones, 3ydd Mali Brookes
Tlws yr Ifanc (Bl 7 – 9): Iolo

Morris
Bl 10 + 11: 1af Owain Cynfab, 2il Ben Owen, 3ydd Leisa Gwenllian
Bl 12 – 13: 1af Beca Llwyd, 2il Ceri Griffith, 3ydd Robin Whiteside
Y Gadair: Beca Llwyd
Limrig ar y noson: Sbenglas
Roedd pawb yn y Steddfod o'u co' Pan waeddodd rhywun "Ho! Ho!"
- Ryw stripar randi
A hwnnw'n reit handi
Yn gweiddi fel rhywbeth o'i go'!
Cerdd: Alisdair Howarth – Enillydd Tlws y Llenor Cynradd BANG!
Sŵn y seiren yn crio,
Sŵn y bomiau'n disgyn,
Sŵn y babi'n sgrechian,
Sŵn y gynna'u'n saethu,
Sŵn y tân yn hisian,
BANG!
Adeiladau'n disgyn,
SMASH!
Gwydr yn smashio,
Pobl yn sgrechian,
Sŵn y tren stêm
Yn gadael.

Canlyniadau Celf a Chrefft
Arlunio Meithrin
1. Ynyr Jones
Arlunio - Blwyddyn 1
1. Lleucu Jones
2. Efa Gwyn
3. Elis Dafydd
Arlunio – Blwyddyn 2
1. Lois Elen Aaron
2. Harriet Garth
3. Gruffudd Rowlands
Arlunio - Blwyddyn 3
1. Owain Eifion Land
2. Eban Sion
3. Elliw Jones
Arlunio Blwyddyn 4
1. Owain Williams
2. Llio Jones
3. Ela Jên
Arlunio – Blwyddyn 5
1. Betsan Haf
2. Fflur Lloyd Jones
3. Guto Ewart Parry
Arlunio Blwyddyn 6
1. Twm Owain Williams
2. Luned Llwyd
3. Beca Mair
Arlunio - Blwyddyn 7 ac 8
1. Buddug Jones
2. Erin Gibbard
3. Beca Fôn & Erin Gibbard
Arlunio - Blwyddyn 9 a 10
1. Gwernan Brooks
2. Gwernan Brooks
Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau.
Owain Eifion Land
TRI DIMENSIWN – Unrhyw addurn neu eitem yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu ar unrhyw thema
Tri Dimensiwn Meithrin / Derbyn
1. Iago Elidir
Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2

1. Elain Beech
2. Ela Mai
3. Gwern Gwilym
Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4
1. Sioned Hughes
2. Sion Owain Williams
3. Anest Haf Hughes / Morgan Rowlands
Tri Dimensiwn Blwyddyn 5 a 6
1. Alaw Hughes
2. Fflur Lloyd Jones
3. Guto Ewart Parry
Tri Dimensiwn Oedran Uwchradd
1. Catrin Beech
2. Gwernan Brooks
3. Gwion Rhys Evans
TECSTILIAU
Tecstiliau Adran Babanod (Addurn i'r llofft)
1. Lleucu Jones
2. Ynyr Jones
Tecstiliau Adran Iau (Unrhyw eitem ar y thema lliwiau)
1. Elliw Jones
2. Alaw Hughes
3. Sioned Hughes
Tecstiliau Oedran Uwchradd (Unrhyw eitem)
1. Elin Daniel Parry
2. Beca Fon Parry
Tecstiliau Agored (Unrhyw eitem)
1. Eryl Price Williams
COGINIO
Coginio Meithrin (Cacennau Crisbi)
1. Edi Holdsworth
2. Ynyr Jones
Coginio Blwyddyn 1 (Cibab)
1. Lleucu Jones
2. Efa Gwyn
Coginio Blwyddyn 2 Bisgedi sinsir)
1. Llew Pennant Jones

2. 'Bob'
3. Gruffudd Rowlands
Coginio Blwyddyn 3 (Cacennau bach)
1. Owain Eifion Land
2. Elliw Jones
3. Anest Haf Hughes
Coginio Blwyddyn 4 (Salad Pasta)
1. Ela Jên
2. Efa Holdsworth
3. Llio Elen Jones & Sioned Hughes
Coginio Blwyddyn 5 (Sgons)
1. Guto Ewart Parry
2. Ynyr Gwilym
Coginio Blwyddyn 6 (Cacen Gaws)
1. Alaw Hughes
2. "Jeff" –
3. Beca Mair & Cara Awel Williams
Coginio Blwyddyn 7,8 a 9 (Bara (torth neu roliau)
1. Nanw Llwyd
2. Mared Enlli Evans & Nel Pennant Jones
3. Lowri Non Parry
Coginio Blwyddyn 10,11,12 a 13 (Cacen ddrisl lemwyn)
1. Efa Roberts
2. Macsen Llwyd
3. Guto Whiteside Thomas & Macsen Llwyd
Coginio Agored – Pastai
1. Delyth Jones
Coginio Agored – Canapes
1. Nanw, Rhodri & Esyllt Llwyd
2. Delyth Jones
Coginio Agored –Pryd Llysieuol
1. Linda Jones
2. Osian Evans
3. Irfon Jones
Coginio Agored Jam
1. Gareth Jones

2. Delyth Jones
3. Eirianwen Thomas & Eirianwen Thomas
Coginio Agored (Coctel)
1. Gethin Wyn Jones
2. Irfon Jones
3. Esyllt Llwyd & Rhodri Llwyd
Coginio Agored (Briwgig Melys)
1. Eirianwen Thomas
2. Bethan Jones
GOSOD BLODAU
Gosod Blodau Agored (Addurn canol bwrdd)
1. Anest Haf Hughes
2. Sioned Hughes
3. Alaw Hughes & Nerys Rogers/
Esyllt Llwyd
FFOTOGRAFFIAETH
Ffotograffiaeth - Cynradd
1. Padrig Hickey
2. Padrig Hickey
3. Beca Mair
FFOTOGRAFFIAETH -
Ffotograffiaeth –Blwyddyn 7
1. Ceri Hickey
2. Catrin Beech
3. Erin Gibbard
Ffotograffiaeth –Blwyddyn 8 ac uwch & Oedolion
1. Rhodri Llwyd
2. Nanw Llwyd
3. Jack Booth & Esyllt Llwyd
DYLUNIAD CYFRIFIADUROL
Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Babanod
1. Elain Beech
Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Iau
1. Alaw Hughes
2. Anest Hughes
3. Sioned Hughes
Dyluniad Cyfrifiadurol Oedran Uwchradd
1. Catrin Beech

Parhad LLANRUG



Ysgol Gynradd Llanrug



Disgyblion Bl 5 a 6 wedi bod yn gyrru llythyrau i Uganda, ac wrth eu boddau eu bod wedi derbyn ateb!

Dathlu plant mewn angen drwy wisgo pyjamas a gorchuddio Pudsey mewn ceiniogau! Casglwyd dros £350 i'w rannu rhwng CLIC Ysbyty Gwynedd a Chronfa Plant Mewn Angen.



Cafwyd llwyddiant hefyd yn gwerthu cynnyrch plant yn ffair Nadolig yr ysgol. Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur iawn efo'i Siôn Corn melyn a blwyddyn 5 a 6 wedi creu CD o'u carolau. Cyfnod Sylfaen

Bu pawb yn y cyfnod sylfaen yn brysur yn creu cynnyrch ar gyfer y ffair gan ddefnyddio'rarian i brynu adnoddau newydd i'r dosbarthiadau. Dyma waith y dosbarth meithrin.



Llongyfarchiadau mawr i dim nofio yr ysgol yng ngala nofio yr Urdd ym Mangor. Aeth llawer o'r plant ymlaen i'r rasys terfynol gyda Dion Peris a Isabelle Shaw yn cael cyntafyn eu cystadlaethau unigol. Daeth timau rasys cyfnewid bechgyn a merched blwyddyn 3 a 4 hefyd yn fuddugol.

Pob lwc i'r plant fydd yn cystadlu yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yn Nghaerdydd mis Ionawr.




Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn dysgu arwyddo fel rhan o'u gwaith ar ddyfalbarhau! Llawer o hwyl!



Diolch yn fawr hefyd i bawb oedd wedi cyfrannu at ymgyrch 'Operation Christmas Child.' Nifer fawr o focsys wedi ei roi at achos da.

Ffair Ysgol

Bu r Ffair Nadolig yn llwyddiannus eto eleni a Sion Corn druan wrthi am 3 awr yn gweld yr holl blant bach. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Parhad LLANRUG



Aur, Thus a Myrr

Dyma lun o waith llaw Bethanne Williams yn y Sioe Aeaf yn Llanellwedd, ddiwedd Tachwedd. Enillodd y 3ydd gwobr ar y pwnc "Aur, Thus a Myrr". Bu llawer o aelodau Cangen Llanrug yn cystadlu ar amrywiol bynciau.

Cyfarchion Nadolig

Dymunwn Nadolig Hapus a Dedwydd i bawb, a chofion annwyl at bawb sydd ddim yn dda eu hiechyd, gartref neu mewn gofal ac ysbytai. Blwyddyn Newydd dda hefyd. Dymuna Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Tecwyn a Flo Roberts a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth o golli mam Tecwyn, sef Luned Roberts (Deiniolen gynt).

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 17eg o Dachwedd bu farw Alf Parry, 2 Bryn Heli yn 87 oed. Cafodd ei eni yn Llanrug a bu fyw y rhan fwyaf o'i oes yn y pentref. Bu ef a'i ddiweddar wraig, Mai, yn weithgar iawn yn y pentref, yn enwedig yn codi arian er budd Ymchwil y Galon. Bydd colled fawr i'w deulu, cymdogion, ffrindiau a'r Capel. Estynnwn ein cofion a'n cydymdeimlad at y plant, Gareth a Deirdre, Helen a Brian, y wyrion a'r wyresau, a'i or-wyres fach Elin.

Yn dawel, yn 99 oed, bu farw Naomi Griffiths yng Nghartref Preswyl Marbryn, Caernarfon. Ganwyd hi yn Llanrug, a bu fyw yma ar hyd ei hoes. Cydymdeimlwn yn fawr a'i merch Pauline a David, a fu yn garedig iawn a gofalus ohoni; ei wyresau Beverley ac Alison a'u gwyr, ei wyr Eurig a Lisa, a'i gor-wyrion a gor-wyresau. Cofion hefyd at ei chwaer, Mrs Annie Norman, Ffordd Glanffynnon.

Babis Newydd

Croeso mawr i Mali Wyn, merch fach gyntaf i Caroline ac Eifion, Fferm Parciau, Caernarfon. Llongyfarchiadau i Johnnie a Gwawr Evans, Llain Gro ar ddod yn daid a nain eto. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Dafydd a Gwenda, Ffordd Glanmoelyn ar ddod yn daid a nain i ail fab bach Dewi a'i wraig; brawd bach i Ellis.

Gradd Meistr

Llongyfarchiadau i Rhodri Williams, Swn y Gwynt ar ennill ei radd meistr (M.Mus) mewn cerddoriaeth gyda rhagoriaeth. Da iawn Rhodri.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Tachwedd

1. Hefin Jones, Llanrug; 2. Carys Jones, Penisarwaun.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Tachwedd 14eg, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan ein Llywydd, Bethanne, a chychwynwyd y noson gyda Chên y Mudiad. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Llongyfarchwyd Ann Lloyd a'i gŵr ar ddathliad eu Priodas Aur. Anfonir ein cofion at Margaret a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i bawb fu'n cystadlu yn yr Ffair Aeaf ar Dachwedd 27-28. Derbyniwyd neges gan Dylan Jones, yn ein hysbysu ei fod wedi sefydlu busnes newydd 'Teithiau Dylan' a fydd yn cynnwys darparu sgysiau a theithiau hanesyddol o amgylch Cymru gyda cherbyd sy'n gallu cario 8 person ac mae'n barod iawn i strwythuro ei deithiau/sgysiau ar gyfer eich gofynion. Gallwch gysylltu ar Trydar/dylanstoursofwales/ www.dylanstours.cymru

Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo yn gofyn yn garedig am ein cyfraniad blynyddol. Cytunwyd yn unfrydol i gyfrannu tuag at y gweithgaredd gwerthfawr hwn gan ddymuno eisteddfod lwyddiannus eto eleni. Gŵr gwadd y noson oedd Huw Price Hughes, un o Ddeiniolen yn wreiddiol ond yn byw ym Methel erbyn hyn. Bu yn aelod o Gyngor Gwynedd am dair blynedd ar ddeg ac rydym i gyd yn gyfarwydd â'i golofn fisol 'Ar ben arall i'r lein' yn yr Eco. Ef hefyd yw ysgrifennydd Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfaï a Llyfni. Cafodd ei urddo i'r Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol Môn eleni. Diolchir iddo am ddod atom i sôn nid am bysgota ond am 'Ysbrydion Tu Hwnt'. Difyr oedd gwranddo arno yn olrhain sut y cychwynnodd y diddordeb yn yr Ysbrydion Tu Hwnt. Credai ei hen nain ynddynt a chlywodd yntau y sôn am weld yr ysbrydion o amgylch y fro hon ac ymhellach. Dyna'r olion bysedd mewn ysbyty, twll yn nho Siop Marc Deiniolen a'r sosban yn malu'n deilchion. Clywodd fod hen ddyn, gyda het ddu ar ei ben, yn cerdded llwybr Glasgoed. Taerai teulu a drigai mewn carafan bod babi bach yn ei wely ac eisteddai'r dyn mewn cadair siglo wrth ei ymyl. Darganfuwyd braich yn yr atig yn Stryd yr Eglwys, Caernarfon. Taerwyd i rai weld sgerbwdd dynes yn cerdded yn lolfar Black Boy cyn 1900. Teimla llawer bod awyrgylch milain ac oer yn Stryd y Cyfreithwyr. Yn Felin, Penygroes byddai pethau'n cael eu symud o un lle i'r llall yn aml. Yn Eglwys Llanfair is Gaer roedd rhai wedi gweld dyn hefo esgidiau pigfain a gwisg o droad y ganrif. Mae llawer wedi gweld y llun o'r hen wraig ar y bont yn Nhŷ Mawr Wybrnant a'r plentyn ar ysgwydd ei dad yn edrych arni. Bu arddangosfa o luniau yn ymwneud â'r straeon hyn yn hynod o ddifyr a brawychus yn aml.

Bu holi a stilio difyr ar ddiwedd y sgwrs a diolchodd Bethanne i Huw am noson ddifyr a gwahanol tu hwnt. Diolchir i Meryl, Nan a Julie am y banded. Enillydd y raffl oedd Pat Jones. Gobeithio bod Ann a Megan yn gwella wedi triniaeth i'w pengliniau. Dymunir Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Fendtthiol i bawb yn 2018.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage

LLANBERIS

M.O.T GWASANAETH CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

Parhad LLANRUG



Capel y Rhos

Haf Thomas yn cyflwyno rhodd i Emyr Williams, Trysorydd Capel y Rhos Diolch o galon i Haf Thomas, Buarthau am gyflwyno £750 i Gronfa'r Capel. Bu'n ddiwyd drwy'r flwyddyn yn gwneud a gwerthu cardiau. Mae'r rhodd wedi ei defnyddio tuag at brynu byrddau newydd i'r Festri.

Cafwyd Cyngerdd Adfent llwyddiannus eto eleni, a diolch i Gor dre dan arweinyddiaeth Sian Wheway am roddi gwledd gerddorol i ni. Diolch hefyd i'r ieuencid lleol fu'n cyflwyno eitemau amrywiol. Diolch i bawb fu'n helpu tuag at lwyddiant y noson gan gynnwys paratoi'r lluniaeth i'r cor.

Oedfaon Ionawr 2018

Ionawr 7 Y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson

Ionawr 14 Mr Dafydd Iwan

Ionawr 21 Y Gweinidog

Ionawr 28 Y Barch. Mererid Mair Williams

Anrheg Nadolig i Ambiwylans Awyr



Dyma Gemma o Elaine's Llanrug yn cyflwyno sic am £550 i Alwyn, Cydlynedd Cymunedol, Caernarfon ar ol iddynt gynnal Noson 'Pamper' Nadolig yn ddiweddar er budd yr Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch yn fawr gan bawb yn yr Elusen.

Ennill Hamper



Yn ystod y mis cynhaliwyd cystadleuaeth i ennill hamper Nadolig o siop cigydd Bryn Williams. Yr enillydd oedd Mrs Denise Jones, Pontllyfni.

Atebion y Cwis Chwaraeon
1. Bloemfontein, Port Elizabeth 2. Robert Page 3. RAW SLAM 4. Hartlepool 5. UAF 6. Sam Voakes/Panama 7. Hoci 8. Mark Alzeilwood (Caerfyrddin) 9. Llanydddyr 10. Hawthorns (WBA)

S4C AM DDIM. DOES DIM RHAI ARCHBU LLE. FREE EVENT. NO BOOKING NEEDED.

ROWNDAROUND GWEITHDAI WORKSHOPS

11.00 – 12.00 a 1.30 – 2.30
DYDD SUL SUNDAY 14.01.2018
YSTAFELL CRAFTNANT ROOM

Awydd actio? Eisiau gwybod sut mae rhaglen deledu'n cael ei chreu? Hoffet ti weithio gyda chamera teledu neu fwm? Dyma dy gyfle i gyfarfod rhai o actorion a chriw cynhyrchu Rownd a Rownd mewn gweithdy o'r sgript i'r sgrin. Love acting? Or want to learn how a TV programme is made? Fancy having a go with a TV camera or boom? Here's your chance to meet some of the Rownd a Rownd cast and production team in a script to screen workshop.

f t i s4c.cymru

S4C Cyw

Canu a dawnsio gyda Cyw a'i ffrindiau!
Sing and dance with Cyw and friends!

Y Brif Theatr Theatre Auditorium
Dydd Sul Sunday 14.01.2018

10.00 Sioe Cyw Show
11.30 Sioe Cyw Show
1.30 Sioe Cyw Show
3.00 Canu a dawnsio gyda Cyw
Sing and dance with Cyw
Llwyfan y Neuadd The Hall Stage

Archeba docyn am £1 Buy your ticket £1
01492 872000 venuecymru.co.uk

f t i s4c.cymru/cyw

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER
CALEN IEB

Menter
 Môn

CYNIGOR
GWYNEDD
COUNCIL

ERDF

Ynysyborth Cymru
Welsh Government

Enwyr & Chymrw: Buddsoddi yn eiddi dyfodol
Cynllun Cynllunio Rhyngwladol
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

CYSTADLEUAETH HEN LUNIAU ECO'R WYDDFA / CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN

Rhaid nodi yn union lle tunwyd yr hen luniau. Nid yn unig pa bentref ond lle yn union yno.

Gwobr: Hamper gwerth £25 gan Menter Fachwen.
Atebion drwy e-bost i: garethroberts754@yahoo.co.uk
Neu postio i: Gareth Roberts, Menter Fachwen, 52 Stryd Fawr, Llanberis, Gwynedd LL55 4EU
Erbyn Gwener 12 Ionawr 2018.

Cewch yr atebion yn rhifyn Chwefror 2018 yr Eco ac hefyd yn ystod 'DIWRNOD HEN LUNIAU A FFILMIAU BRO ECO'R WYDDFA' cynhelir gan CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN yn Siop Menter Fachwen, 52 Stryd Fawr, Llanberis rhwng 10.00yb a 5.00yp ar Ddydd Sadwrn, 27 Ionawr 2018.



DIGWYDDIADAU

IAU 18 IONAWR 1.30yp
TAITH GERDDED: HANESION STRYD FAWR BANGOR (2 filltir)
CYCHWYN: MAES PARCIO 'BEACH ROAD', BANGOR
EITHA HAWDD.

NOS FAWRTH 23 IONAWR 7.30yh
NOSON FFILMIAU HANES AC ARCHAEOLEG LLEOL
Gyda MARTIN DAVIES
YN SIOP A CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD
MENTER FACHWEN, 52 STRYD FAWR, LLANBERIS.
Mynediad: Cyfraniad i Menter Fachwen.
Cysylltwch am rhagor o fanylion.


GWENER 26 IONAWR 1.30yp
TAITH GERDDED: HANESION CLWT Y BONT (1½ milltir)
CYCHWYN: CWT BAND DEINIOLLEN, CLWT Y BONT.
EITHA HAWDD.

SADWRN 27 IONAWR 10.00yb-5.00yp

DIWRNOD HEN LUNIAU FFILMIAU BRO ECO'R WYDDFA
YN SIOP A CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD
MENTER FACHWEN, 52 STRYD FAWR, LLANBERIS.
CROESO CYNNES I BAWB.

Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen am rhagor o fanylion:
01286 870681
07867 810576
garethroberts754@yahoo.co.uk

Hefyd:
DYDD MAWRTH 6 CHWEFOR 2018
1.30-3.30yp a 7.00yh
DIWRNOD HANES PENTIR, RHIWLAS A LLANDDEINIOLLEN
ARDDANGOSFEYDD O HANES AC ARCHAEOLEG Y FRO A SGYRSIAU GWELEDOL
YN NEUADD RHIWLAS
CYSYLLTWCH A GARETH ROBERTS AM RHAGOR O FANYLION



Dirgelwch Englyn y Llofruddiaethau

Mae'rhanesamlofruddiaethgwraig y Fron Chwith, Llanddeiniolen gyda chryman gan wallgofddyn yn eithaf gwybyddus, er iddo ddigwydd mor bell yn ol a 1825. Ond mae'r englyn a naddwyd ar ei charreg fedd ym mynwent Eglwys Llanddeiniolen wedi achosi sawl cur pen ac wedi ei gofnodi mewn sawl casgliad o englynion beddargraff. Mae'n ymddangos yn "Lloffion o'r Mynwentydd" (1834), "Englynion Beddau Dyffryn Ogwen" (1979), "Llais y Meini" (1979), "Mynwenta" (1980) ac "Awelon Dewch i Wylo" (1982). Dyma'r englyn yn Llanddeiniolen:

Nid penyd clefyd a'm cloes – nid ingol

Nod angau dolurloes;

Na henaint aeth a'm heinioes;

Dyn a fu yn dwyn fy oes.

Y cwestiwn – nad oes ateb iddo hyd yn hyn, yw pwy oedd yr awdur?

Mae Gomer M. Roberts (Mynwenta) yn dyfynnu o "Blodeu glwm o Englynion" (W. J. Gruffydd), ac yn nodi 1854 fel dyddiad y lofruddiaeth, a dyddiad cyfansoddi'r englyn yn ddiweddarach. Mae'n od meddwl fod awdur "Hen Atgofion" wedi cael y dyddiad yn anghywir. Ar yr olwg gyntaf, mae hefyd yn od ei fod yn awgrymu mai Dafydd Ddu Eryri oedd awdur yr englyn. Os mai Dafydd oedd yr awdur, ni chafodd yr englyn ei gyfansoddi i wraig y Fron Chwith oherwydd roedd yr hen Ddafydd druan wedi boddi yn Afon Cegin dair blynedd cyn dyddiad y lofruddiaeth!

Mae'r englyn wedi ei ddefnyddio ar nifer o gerrig beddau eraill ers hynny. Mae'r fersiwn a gofnodir yn "Lloffion o'r Mynwentydd" (1834) fymryn yn wahanol, ac fe'i cofnodwyd ym mynwent Pentrefoelas. Yn hytrach na "nid ingol", "nid angen" a geir yno. Amrywiad y gellir ei egluro fel cam-gopio. Mae'r fersiwn cywir wedi ei gofnodi yn "Awelon Dewch i Wylo" (1982) – eto ym mynwent Pentrefoelas, ond y tro hwn rhoir y dyddiad 1860, felly dyma fedd gwahanol i'r un a gofnodwyd yn 1834. A fu dwy lofruddiaeth ym Mhentrefoelas?

Ym mynwent Pentir mae wedi ei ychwanegu at ddau englyn arall i goffau bachgen a fu farw o ganlyniad i gael ei gicio ar y Waen Wen. Unwaith yn rhagor, mae'r fersiwn fymryn yn wahanol:

Nid penyd clefyd a'm cloes – nid ingawl

Nod angau a'i dduloes.

Amrywiadau yw'r rhain i gyd ar fersiwn a gofnodir yn 1825, ond mae'r englyn bob tro yn gynganeddol gywir.

Hyd yn ddiweddar, ni wyddwn ond am un enghraifft yn Ne Cymru. Mae ar garreg fedd ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llangathen, dyffryn Tywi, ac yn cofnodi lofruddiaeth Mary Evans o blwyf Llandilo yn 1844. Nid yw wedi ei ei naddu ar ffurf arferol englyn:

Nid nychlyd, nid clefyd am clos,

Nid ing nid angeu dihirloes

Nid henaint aeth am heinios

Ond Dyn a fu yn dwyn fy Oes.

Mae'n ymddangos fel bod dwy odl yn yr 'englyn' hwn, ond mae'n siwr mai fel '-os' y cai'r geiriau eu hynganu yn acen y de. Mae un sill yn ormod yn y llinell olaf, ac y mae'r geiriau 'nychlyd' a 'dihirloes' yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn y fersiwn 'ogleddol'.

Er hynny, roedd yn ymddangos fel pe bai rhywun wedi clywed yr englyn a ddefnyddiwyd yn y gogledd, ac wedi ei osod ar fedd yn y de, ond heb fod yn hollol sicr o'r geiriau. Roedd englyn Llanddeiniolen yn parhau y fersiwn cynharaf y gwyddwn i amdano tan yn ddiweddar. Ac yna daeth gwybodaeth am fersiwn cynharach – yn y de. Ar fedd William Thomas ym mynwent Eglwys Llangynnwr mae'r 'englyn' canlynol:

Nid nychlyd nid clefyd a'm clos

Nid ing, nid angau dihirlo's

Nid henaint aeth a'm heinio's

Ond dynion fu yn dwyn fy o's.

Bachgen 15 oed oedd William Thomas a lofruddiwyd ar Ddydd Calan yn King Street, Caerfyrddin. Mae'r dyddiad ar y garreg fedd yn nodi mai Ionawr 1af 1822 y lofruddiwyd ef. Mae hyn dair blynedd cyn fersiwn Llanddeiniolen. Unwaith eto, mae un sill yn ormod yn y llinell olaf, ond mae bron air am air fel englyn Llangathen.

Nid dyna ddiwedd yr hanes fodd bynnag! Cofnodir hanesyn diddorol am yr englyn a'r garreg fedd yn 1897 yn y Glamorgan Free Press. Dyfynnaf yn y Saesneg "Epitaph on the grave of a young man murdered near Pensarn, Carmarthen on the first of January 1812, aged 15 years; buried at Llangunnor. Two well-known bards from North Wales visited the church and came across this grave, and wrote the following on a slab with chalk. The vicar had these carved on the grave of the young man." Y mae'r 'englyn' wedi ei ddyfynnu, ond mae'r llinell olaf yn anghywir o ran cynganedd, ac yn naw sill o hyd, sef "Ond dynion drwg fu yn dwyn fy oes." 'Cledddyf' ac nid 'clefyd' a geir yn y llinell cyntaf hefyd, sydd eto yn rhoi llinell ddigynghanedd.

1822 yw'r dyddiad cywir, a hwn yw'r fersiwn cynharaf (hyd yn hyn), ond mae'r stori am y ddau fardd yn awgrymu mai o'r gogledd y daeth! Ond, os gwir y stori, a allai Dafydd Ddu Eryri fod yn un o'r ddau "well-known bards" a ddaeth o'r gogledd? Ni wn am gofnod ohonno'n teithio i'r de, ac yn sicr, byddai ei gynganeddu wedi bod yn gywir a'r nifer o sillafau mewn englyn! A bu yntau farw yn 1822 hefyd.

Felly, does dim ateb boddhaol ynglyn a phwy yw awdur yr englyn nac ymhle y cofnodir y fersiwn cynharaf. Ond gwyddom erbyn hyn nad yn Llanddeiniolen y mae'r fersiwn cyntaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Meibion Glan Padarn

Mae hanes y bardd Glan Padarn wedi ei gofnodi yn rhai o rifynnau cynnar yr “Eco”, ac yn ddiweddar cefais achos i ymchwilio i hanes ei deulu. Roeddwn dan yr argraff mai un mab oedd ganddo, ond bellach gwn fod dau: Robert David Thomas, a aned yn 1877 a Thomas Llewelyn Thomas a aned yn 1878. Ei wraig gyntaf, Mary (Williams gynt) oedd mam y ddau fachgen, ond bu farw yn fuan wedi geni'r ail fab. Ni cheir cofnod swyddogol wedyn am y ddau blentyn hyd 1881, sef y Cyfrifiad, ond erbyn hynny, roedd Glan Padarn wedi ail-briodi efo Elizabeth, (chwaer Mary) – a hynny yng nghapel y Methodistiaid Wesleiaidd, Stanhope Street, Lerpwl. Roedd hi bron i bymtheng mlynedd yn ieuengach na'i gwr. Erbyn 1881 roedd Glan Padarn, Elizabeth a Robert David yn byw yn Nhy'n y Fawnog, Dinorwig. Ond roedd Thomas Llewelyn gyda'i daid a'i nain (sef rhieni ei fam a'i lys-fam), Robert ac Ann Williams yn Frondeg, Clwt y Bont. Beth tybed ddigwyddodd i'r ddau frawd wedyn? Tua 1885, ond nid oes sicrwydd pendant o'r dyddiad, symudodd Glan Padarn i fyw i'r Boat Inn, Pwll Fanogl, Llanedwen ar Ynys Mon. Gweithiai yn y Felin Lechi gerllaw, yn gwneud llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion, Ei wraig, Elizabeth oedd yn dal trwydded y Boat Inn. Ym mis Awst 1888 bu Glan Padarn farw, gan adael Elizabeth yn weddw ifanc yng ngofal ei llys-fab (a'i nai). Roedd Elizabeth a Robert David yn parhau yn y Boat Inn yn 1891, ond erbyn 1901 mae'r dafarn yn wag. Hyd yn hyn methais a darganfod i ble roedd Elizabeth a Robert David wedi mynd. Erbyn 1901 roedd Thomas Llewelyn a'i nain weddw (Ann Williams) yn byw yn rhif 1 King's Head Street, Clwt y Bont. Mae Thomas bellach yn 22ain oed, ac yn disgrifio i hun fel 'hairdresser', ac yn gweithio yn y cartref. Mae rhyw awgrym fod iechyd Thomas Llewelyn yn fregus neu fod nam arno. Cynhaliwyd cyngerdd Gwyl Ddewi yng Nghapel Disgwylfa yn 1894, gyda'r elw i gynorthwyo “mab analluog ac amddifad Glan Padarn”. Roedd Thomas yn un

ar bymtheg oed erbyn hyn. Byddai mwyafrif bechgyn o'r oedran hwn yn gweithio; llawer ohonynt yn y chwarel. Yn 1906 bu Ann Williams farw, a cheir adroddiad am ei marwolaeth yn Y Cymro: “Mae bedd yn barod i Ann Williams, gynt o'r Black Horse..... magodd ddwy wraig i'r diweddar Glan Padarn... ac y mae Llewelyn, mab glan, yn unig yn hen annedd ei nain.” Roedd yn wyth ar hugain oed. Nid oes gofnod o Thomas Llewelyn yng Nghyfrifiad 1911 oherwydd roedd eisoes wedi marw, a hynny ym Medi 1910, yn wr ifanc 32 oed. A arhosodd yn “hen annedd ei nain” ar ei ben ei hun am bedair blynedd olaf ei oes? Yn ol adroddiadau cynnar yn yr “Eco”, bu'n byw gyda William a Jane Parry, 12 Deiniol Road, Ebenezer, a chladdwyd y ddau yn yr un bedd ag ef, gyda coffhad hefyd am ddau o'u meibion – Henry a gollwyd yn y Rhyfel Mawr, a Robert a foddwyd yn afon Weaver. A oedd perthynas deuluol rhyngddynt? Mae traddodiad yn adrodd i Glan Padarn briodi merch y Black Horse, Clwt y Bont. Mae adroddiad marwolaeth ei fam yng nghyfraith, Ann Williams yn nodi “gynt o'r Black Horse”. Ond methais a darganfod tystiolaeth sy'n dangos y teulu yn byw yno. Symudodd Robert ac Ann Williams i Glwt y Bont rywdro rhwng 1850 a 1856, ond chwarelwr oedd Robert. Yn 1871 roedd y teulu yn byw yn Rhif 1 King's Head Square, Clwt y Bont (teuluoedd eraill oedd yn y ddwy dafarn King's Head a'r Quarry Arms). Roedd Robert Williams bellach yn gertiwr. Felly hefyd yn 1881 a'r teulu bellach yn Frondeg. A phan briododd Mary a Glan Padarn yn 1876, rhoir ei chyfeiriad fel Frondeg, Clwt y Bont. Dywedir mai hen enw ar y Crown, Clwt y Bont oedd Black Horse, ac mai'r adeilad agosaf at Frondeg oedd hwnnw. Ai dyna'r cysylltiad? Bydd angen mwy o waith ymchwil i ddarganfod yr ateb – os nad oes rhai o'r darllenwyr yn gwybod!

WEA yn y Waunfawr a Deiniolen

Gyda diolch i Sarah Kelly, Bangor (Llanddeiniolen gynt) am ymateb i'r lluniau yn y rhifynnau cynharach.

Sefydlwyd yng Ngogledd Lloegr yn 1903, yna yng Nghymru ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, lle datblygodd Cangen yn y De ac yn y Gogledd. Yn 1925, agorwyd Coleg Harlech fel Coleg Preswyl i'r WEA., ac yr oedd hwnnw'n agored i bob aelod trwy Brydain. Yn 2015, unwyd WEA Cymru efo'r YMCA Community College i ffurfio 'Adult Learning Wales' /Addysg Oedolion Cymru'. Ceir yr holl fanylion yma a mwy oddi ar y We. Ond stori bach nad yw wedi ei recordio ar hwnnw yw un am Winston Churchill, ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd yn 1939, yn penderfynu bod yn rhaid arbed arian a thorri ar bob math o weithgarwch nad oedd yn angenrheidiol i'r wlad. Trwy drugaredd, fe ddaeth i ddeall pa mor bwysig oedd y WEA ym mywydau pobi a gwelodd bwysigrwydd cynnal y mudiad, doed a ddél.

Dosbarth Waunfawr

Dyma'r manylion sydd yn fy meddiant; 1955-56: 'Roedd y dosbarth wedi ei sefydlu cynt gan yr WEA, ond fe gafodd ei gymryd drosodd oddi wrthynt gan Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor (fel y gelwid of bryd hynny). Fe ddigwyddai hyn os oedd llewyrch ar ddosbarth y WEA (soniaf am hyn yn fy atgofion yn Cynaeafu). Yr athro oedd gŵr o'r enw C. Flynn-Hughes, M.A. a'i bwnc oedd 'Problemau Gweinyddu Llywodraeth'. Beth a elwid yn 'Ddosbarth Tiwtorial' oedd hwn, yn parhau am dair blynedd, ac ymunodd 12 o fyfyrwyr ynddo. 'Roedd yn ofynnol i bob aelod gyflawni gwaith darllen ac ysgrifenedig ac mae'r record yn dweud iddynt oll wneud hyn. Yn anffodus, tua'r diwedd, bu gostyngiad yn nifer yr aelodau a throsglwyddwyd y dosbarth yn ôl i'r WEA. 1959-60: Daeth y dosbarth eto o dan law y Brifysgol gyda'r Parch A.E. Jones, C.B.E., B.A. (Cynan) yn athro. Ei bwnc oedd 'Llenyddiaeth Gymraeg y C18fed' ac ymrestrodd 16 ynddo, 13 ohonynt wedi cwblhau eu darllen a'u gwaith ysgrifenedig. 'Roedd Cynan, wrth gwrs, yn diwtor cyflogedig amser llawn yn yr Adran Allanol. Y flwyddyn ddilynol aethpwyd ymlaen i astudio 'Llenyddiaeth y C19', ac erbyn y drydedd ei bwnc oedd 'V Beibl fel Llenyddiaeth'. Fel y gallesid disgwyl yn achos Cynan, parhaodd nifer y disgyblion yn hynod dda ond ar ddiwedd ei dair blynedd yno dychwelwyd y dosbarth eto i ofalaeth yr WEA.

Dosbarth Deiniolen

1958-59: Ni wn os cafodd y dosbarth hwn ei sefydlu yn wreiddiol gan y WEA ai peidio, ond yr oedd yn perthyn i'r Brifysgol yn y flwyddyn hon, hefo Cynan yn athro. Parhaodd am dair blynedd fel dosbarth tiwtorial ac yna ail-ddechrau wedyn a mynd ymlaen am gyfanswm o ddeng mlynedd, hyd at 1967-68 — record arbennig a nifer yr aelodau'n dal oddeutu'r pymtheg trwy'r holl amser. **Nodiadau Cyffredinol am y Dosbarthiadau** Dewis y grŵp oedd yr athro. Os nad oedd yn plesio rhaid fyddai i'r WEA neu'r Adran Allanol chwilio am un arall yn syth! Fe ddeuai'r aelodau o bob grŵp o gymdeithas: Athrawon ysgol, Gweinidogion, Gweithwyr chwarel neu ddiwydiant tebyg, rhai Ffarm, Merched a Dyletswyddau Cartref a Nyrsio ('Home Duties and Nursing' a elwid y categori hwn yn Saesneg a theimlaf ei fod yn rhoddi statws dyladwy i'r wraig tŷ a'r fam.) Sylwais hefyd bod nifer helaeth lawn yn disgyn i'r grŵp hwn — nid oedd llawer o ferched yn y gweithle yr oes honno. 'Roedd safon gwaith ysgrifenedig (angenrheidiol yn y dosbarthiadau tiwtorial) yn eithriadol o dda a chredaf y buasai'n codi cywilydd ar lawer myfyriwr heddiw! Cofier nad oedd ond ychydig iawn o'r aelodau wedi cael addysg ffurfiol ond hyd at rhyw 14 oed, ond yr oedd yr awydd dysgu a chael gwybodaeth o amryw byd o bynciau yn gryf dros ben ynddynt - manna o'r nefoedd oedd y darlithiau hyn. Wrth gwrs, fe gaent eu gwobr ar ddiwedd y cwrs hefo taith ddiddorol a chinio, ac yn achos Cynan (fel y soniaf eto yn Cynaeafu) 'roeddynt yn rhagorol ym mhob ystyr! Cefais fynd ar ddau neu dri o'r rhain gan i mi fod wedi teipio 'rhaglen y dydd' iddo! Fi yw'r 'ddynes o Deiniolen' yn y llun cyntaf o ddosbarth Waunfawr yrrwyd i'r Eco fis Medi. I orffen, 'rwyf yn credu'n gryf bod y gair WEA yn hollol Gymraeg erbyn heddiw! Enillodd ei dir o'r dechrau, mewn modd na wnaeth 'Cymdeithas Addysg y Gweithwyr' o gwbl. Digwyddodd yr un peth i enw'r Adran Efrydiau Allanol: 'Extra-mural' ddefnyddid gan bawb, ond i lawer o bobl nid oedd bwrpas dweud yr enw hwnnw chwaith - 'O! y WEA ydych yn ei feddwl?' Yr oedd y mudiad ardderchog a gwerthfawr wedi ei asio ar feddwl yr holl genedl yn gyfangwbl.

Dymuna Heulwen Jones, Cyncoed, Warden Street, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion oll.

Dymuna Jean Owen/Roberts, 5 Dôl Eilian, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau, cymdogion a theulu gan na fydd yn anfon cardiau cyfarch eleni.

Dymuna Hugh Hughes, 87, Maes Padarn, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan na fydd yn gyrru cardiau eleni.

Gwasanaethau Nadolig Eglwys Sant Padarn

Nos Sul, Rhagfyr 17eg am 5 o'r gloch - Gwasanaeth Goleuo Bywyd i gofio ein ddiweddar anwyliaid.

Dydd Sadwrn Rhagfyr 23ain am 2 o'r gloch - Taith i'r Stabl, gweler y posteri am ragor o fanlion.

Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24ain am 2 o'r gloch - Gwasanaeth Preseb. Croeso i blant ddod wedi gwisgo'i fyny fel cymeriadau o Stori'r Geni.

Dydd Nadolig am 10 o'r gloch - Cymun Y Nadolig

Nos Calan Rhagfyr 31ain, 23.50 yb - 12.10 yb - Gweddiau, a Chroesawu'r Flwyddyn Newydd **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg** Mi fydd cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar ddydd Sul, yr 17eg o Ragfyr, am 3 o'r gloch yn yr uwch ystafell yn Pete's Eat. Ymysg y pynciau i'w trafod fydd: trafnidiaeth gyhoeddus, darpariaethau i ieuenctid yr ardal. Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â gogledd@cymdeithas.cymru neu 01286 662908

Y Gymdeithas Undebol Bydd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn am 7 o'r gloch, nos

Fawrth, Ionawr y 9fed, gyda sgwrs ar Hen Siopau Llanberis gan Eifion Wyn Roberts.

Diolchiadau Dymuna Douglas, mab y ddiweddar Nancy Pritchard, Ffordd Padarn, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd wedi iddo golli ei fam yn ddiweddar. Diolch arbennig i Feddygfa Llanberis, Nyrsys Cymunedol, Hosbis yn y Cartref a holl weithwyr

Plas Pengwaith. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth yng Nghapel Coch ac i Dafydd Williams a'r ymgymerywyr, E.W. Prtitchard, am eu trefniadau trylwyr.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Gwasanaethau Capel Coch

Rhagfyr 17eg am 10yb: Oedfa; Syh Gwasanaeth Nadolig y Plant

24ain am 10yb: Y Gweinidog

25ain am 10yb: Y Gweinidog - Oedfa Gymun

31ain am 10yb: Y Parchedig Euron Hughes


Ionawr 7fed: Mr Richard Ll. Jones am 10yb

14eg: Gweinidog 10yb a Syh

21ain: Parch Eifion W Williams 10yb, Parch Geraint Roberts Syh

28ain: Oedfa Deulu 10.30 yb

Dadorchuddio plac ar gartref Wilbert Lloyd Roberts yn 7 Rhes y Faenol, Llanberis




Brynhawn Sadwrn, Tachwedd 11eg, fe ddadorchuddiwyd plac ar rhif 7 Rhes y Faenol, Llanberis, gan Elin Roberts-Puw ac Ann Llwyd i nodi man geni eu tad, Wilbert Lloyd Roberts - ei weledigaeth efa arweiniodd at sefydlu Cwmni Theatr Cymru ac yn ddiweddarach Theatr Gwynedd. Croesawyd pawb a chafwyd rhywfaint o hanes Wilbert a'r ardal gan drefnydd yr achlysur, Ken Jones, cyn i ferched Wilbert, Elin ac Ann, ddadorchuddio'r llechen.

Soniodd Ken nad oedd gan Wilbert unrhyw fath o deitl crand o flaen ei enw na phrif lythrennau bras ar ôl ei enw ond, fel y gwelwch heddiw ar y plac, mae ganddo eiriau ar ôl ei enw na all neb arall yn ein gwlad byth eu hawlio - 'Arloeswr y Theatr Gymraeg'.

Braf oedd gweld cynifer o'i gyfeillion ac aelodau Pwyllgor Cerflun Wilbert Lloyd Roberts (sydd i'w weld yng Nghanolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio ym Mangor) wedi ymgynnull o flaen ei gartref genedigol. Yn bresennol hefyd yr oedd un o gyfoedion Wilbert - fy ewythr, Gwynfor Roberts, oedd wedi edrych ymlaen yn eiddgar at yr achlysur.

Diolchwyd i Ken am ei waith yn trefnu'r achlysur gan Alun Roberts, mab cyn gweinidog Wilbert pan yn aelod yng Nghapel Jerwsalem. Diolch hefyd i Llifon ac Eleri Foulkes, preswylwyr presennol y cartref, Cyngor Cymuned a Chanolfan y pentref am noddi'r achlysur, ac i Deian Owen am y llun.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Ysgol Dolbadarn



Archifdy a Llongau Caernarfon

Bu disgyblion yr Adran Iau ar daith arbennig i Gaernarfon yn ddiweddar er mwyn gwneud gwaith ymchwil ar y thema 'Darganfod.' Cawsant sesiwn hynod o ddifyr yn yr archifdy yn dysgu am yr hyn a gedwir yno a gweld rhai o hen luniau Llanberis. Diolch i Mr John Dilwyn Williams a Mrs Gwenda Williams am gynnal y sesiynau. Bu i'r disgyblion grwydro'r hen gei llechi a dysgu am hanes morwrol y dref. Croesawyd yn disgyblion i adeilad Wiston er mwyn dysgu am hanes cludo yr Olwyn ddwr i Gilfach Ddu.



Cleddyf Y Tywysogion

Gwahoddwyd Cyngor Yr Ysgol i gynorthwyo Cyngor Gwynedd a gwrandawyr Radio Cymru er mwyn enwi cleddyf deuddeg troedfedd a fydd yn cael ei osod ar lan Llyn Padarn yn y dyfodol agos. Trafodwyd yr enwau yn ofalus gan y disgyblion gan geisio dewis enw addas ar gyfer cleddyf unigryw a fydd yn hyrwyddo hanes Tywysogion Gwynedd. Bu Aled Hughes a rhaglen Heno yn ffilmio y disgyblion wrth iddynt drafod yr enwau. Bu i Cyffin a Cafan Thomas(disgyblion yr ysgol) gynnig syniadau da ar gyfer y cleddyf. Yr enw buddugol ydy Llafn Y Cewri.

Plant Mewn Angen

Bu disgyblion yr ysgol yn brysur iawn yn darparu gweithgareddau ar gyfer holl ddisgyblion yn ystod yr achlysur. Yr oedd pawb wedi mynychu'r ysgol mewn pyjamas ac roedd stondin cacennau ym mhob dosbarth.



Pêl- Rhwyd

Llongyfarchiadau i dim pêl rhwyd yr ysgol ar eu gwaith caled er mwyn paratoi ar gyfer y twrmament yng Nghanolfan Brailsford yn ddiweddar. Bu iddynt frwydro'n galed yn erbyn timau da iawn. Gobeithio eu bod i gyd wedi mwynhau.

Rygi

Bu canmoliaeth mawr i'r criw rygbi a fu'n cystadlu yng nghlwb Caernarfon yn ddiweddar a chyrraedd y rwnd gyn-derfynol.. Da iawn chi hogia a diolch i Mr Gwilym am eu hyfforddi.

Sioe Mewn Cymeriad:Mimosa

Bu i'r disgyblion fwynhau y sioe yn sôn am hanes taith y Mimosa yn ddiweddar. Yr oedd hyn o gymorth mawr wrth ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o anturiaethwyr a fforwyr o Gymru.

Carol Nadolig

Mae disgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y gystadleuaeth carol Nadolig gan raglen 'Heno' ar S4C. Mae Ms Rhiannon wedi bod yn brysur yn ysgrifennu'r garol a chyda ei llwyddiant yn y gystadleuaeth yn y gorffennol, yr ydym yn dymuno pob dymuniad da iddynt eleni. Bydd y 10 garol a ddewiswyd drwy Gymru yn cael eu darlledu yn ystod mis Rhagfyr.



Gala Nofio Arfon

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yn y Gala Nofio ym Mhwl Nofio Bangor yn ddiweddar ac yn llwyddiannus iawn wrth wneud hynny. Mae plant dawnus iawn gennym o ran safon y nofio yn yr ysgol ar hyn o bryd. Bydd ras gyfnewid dull rhydd Bechgyn Blwyddyn 4 yn cynrychioli'r Ysgol yng Nghaedydd ym mis Ionawr.

Rhieni a Chyfeillion

Diolch o galon i'r holl rieni a fu'n brysur yn cynorthwyo ar gyfer y Ffair Nadolig eleni- bu'n noson llwyddiannus iawn a cafwyd sypreis o weld Siôn Corn yno etop eleni. Diolch i bwyllgor y Ganolfan am eu rhodd hael unwaith eto er mwyn cynnal y noson.



Oherwydd agosatrwydd y rhifyn yma i'r un blaenorol, ni allwn wneud adroddiad manwl o'r lliaws weithgareddau Nadoligaidd. Rwyf felly wedi rhoddi braslun o'r ystod eang o weithgareddau. Gobeithio bod nifer wedi mwynhau yr arlwy.

Gweithgareddau Nadoligaidd Dan arweiniad y Parch. Marcus Robinson, cynhaliwyd Noson Garolau y Pentref yn y Neuadd Goffa.

Eleni, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadoligaidd Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn y Cysegr. Cymerwyd rhan gan gorau plant Ysgolion Bethel a Brynrefail. Cafwyd darlleniad gan Gwyneth Jones ar ran cangen Merched y Wawr a Richard Llwyd Jones ar ran Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Gwahoddir y pentrefwyr i ymuno yng nghwasanaeth y Cymun ar fore Nadolig am 10am yn y Cysegr.

Diolch I bawb a gyfranodd i Gyfarfod Nadoligaidd y Gymdeithas Lenyddol wedi ei threfnu gan Mary a Richard Jones. Cafwyd amrywiaeth eitemau ar lafar ac ar gân. Diolch i Glenys am ymgynull parti canu Merched y Wawr eto eleni.

Cafwyd Ffair Nadolig lwyddianus eto yn yr ysgol. Diolch i bawb am eu cyfraniad a chefnogaeth. Bydd Cyngerdd Nadolig yr Ysgol ar nos Fawrth, Rhagfyr 19 yn neuadd Ysgol Brynrefail am 6pm. Mae

tocynnau ar gyfer y noson boblogaidd hon i'w cael o ysgol Bethel.

I'r Felin, Pontrug y mentrodd Clwb Bro Bethel am eu Cinio Nadolig. Cafwyd pnawn hwyliog a diolch i Ann Elis a Mary Wyn am drefnu, ac i'r cyfeillion gyfranodd at wobrau'r raffl.

Casgliad Nwyddau I'r Ffoaduriaid Dyma un o'r gweithgareddau sy'n codi calon ein cymdogaeth. Diolch unwaith eto i Sion, Ella a Sharon am drefnu i dderbyn a dosbarthu cyfraniadau'r ardal er lles trueiniaid ffoaduriaid Syria. Roedd gweld ystafell gefn y Neuadd Goffa yn llawn i'r nenfwd yn olygfa rhyfeddol. Yno roedd bagiau yn llawn dillad, dillad gwely, tegannau, ac adnoddau iechyd bersonol. Ni allwn ddirnad sefyllfa drychinebus y ffoaduriaid ond diolch am ymateb cymuned i'w sefyllfa. Bydd y rhoddion yn cael eu trosglwyddo i un o ynysoedd Groeg, y fan ble mae'r mwyafrif o'r trueiniaid yn glanio wedi mordeithiau hunllefus.

Y Glaw Trwm Diweddar

Bu sawl rhan o'r fro yn dioddef effeithiau y glaw trwm. Cafwyd adroddiadau o ffyrdd dan ddŵr, a ddŵr yn dod i'r wyneb drwy'r gwterydd o gwmpas tai. Mae rhai stadau yn dal i ddioddef yn rheolaidd pan ddaw glaw trwm. Eto, mae'r awdurdodau yn mynnu fod systemau ddŵr a chludo carffosiaeth yn ateb gofynion pentref Bethel. Prin

iawn yw'r dystiolaeth, ac mae'r Cyngor Cymuned ac unigolion wedi bod yn gyson eu gwrthwynebiad i'r safiad awdurdodol hwn. Elfen bositif oedd nodi am gydweithrediad parod sawl cymydog i roddi cymorth i rai 'dan y don'. Eto'r ysbryd gymunedol.

Cynllunio Yng nghyfarfod misol Pwyllgor Cynllunio rhanbarth Arfon, cafwyd trafodaeth hir ynghlyn â'r cais i adeiladu 7 tŷ ar y llain tir gyferbyn â Stad Rhoslan. Bu cryn drafod gyda'r Cyng. Sion Jones yn adlewyrchu amheuan ac ofnau y trigolion ynghlyn ag addasrwydd y cais. Wedi'r drafodaeth, daethpwyd i'r casgliad fod angen mwy o adroddiadau ynghlyn ag addasrwydd y tir, yn enwedig datganiad gan y Bwrdd Dŵr am y sefyllfa. Ar sail hyn penderfynwyd i ohirio'r penderfyniad terfynol am y tro.

Dymuniadau Personol / Diolchiadau Dymuna Megan Humphreys, Is-Helen ac Elizabeth Evans, Pen Parc ddymuno cyfarchion yr Wyl a'r Flwyddyn Newydd i'w teulu a ffrindiau. Ni fyddant yn anfon cardiau eleni, ond mae'r ddwy mor werthfawrogol o gefnogaeth a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt dros y flwyddyn hon o golled.

Cronfa Calonnau Bethel

Daeth anrheg Nadolig cynnar i'r pentref gyda'r cyhoeddiad fod digon o arian wedi ei gyfrannu I archebu diffibrilydd a chabinet I'w gadw. Nid wyf am restru y cyfrannwyr - yr unigolion, y mudiadau ac elw sawl gweithgaredd. Yr ydym fel ardalwyr yn gwerthfawrogi eich cyfraniad. Diolch I Sioned am danio a chynnal y fflam. Yn wir, gellir dweud dyma anrheg arbennig gan y pentref i'r pentref. Cawn benderfynu ar y lleoliad yn y man, ac mae nifer o bentrefi gyda'r un bwriad, wedi gwneud defnydd o flychau teliffon gwag. Efallai y bydd modd dilyn y trywydd hwn yma. Os gwir y si, yna mae bwriad I anelu at bwrcasu ail

beiriant. Does dim dwywaith fod cynnal gweithgareddau at bwrpas wedi dod a'r pentref at ei gilydd. Gwir am Fethel y Nadolig hwn mai "Cymwynas yw Cymuned."

CYDYMDEIMLO: Unwaith eto y mis yma rydym yn cydymdeimlo a theuluoedd dau o 'hogia' Bethel a gollwyd. Gartref bu farw Albert Hughes, 34 Bro Rhos. Bu 'Ben' fel yr adweinid yn lleol yn ofalus o'i fam y diweddar Sally Hughes am sawl blwyddyn. Prif ddiddordeb Albert oedd y Clwb Snwcer lleol, a bu yn ei dro yn cyflawni sawl dyletswydd yn 'y YM' chwedl yntau. Bu'n chwaraewr, pwyllgorddyn, gofalwr y byrddau a'r swydd bwysicaf yn ei farn o, 'cadw trefn ar y llafnau'. Cofiaf hefyd, pan gychwynwyd tim pel-droed oedolion yn y pentref yn y 90au Albert oedd y trysorydd. Un tawel ar un olwg oedd Albert, ond un a ymfalchiai mai 'hogyn o Bethel' ydoedd a gwna ei ran i gynnal gweithgaredd.

Daeth y newyddion trist o Gaint am farwolaeth Geraint Roberts, Penrhos Villa gynt. Roedd Geraint yn ŵr gweddwr. Cydymdeimlwn ag Emyr ei frawd a'r teulu yn eu colled. Un arall a ymfalchiai mai 'hogyn o Bethel' ydoedd. Ac edrychai ymlaen i ddod adref I Fethel pan oedd ei rieni yn byw yn Penrhos Villa. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor.

Clwb Pel-Droed Mae'r cabannau ystafelloedd newid ar gyfer y timau pêl-droed bellach wedi cyrraedd Cae Coed Bolyn. Gyda chyfraniad hael o £1000 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen llwyddwyd i godi digon o gelc i dalu am drosglwyddo'r cabannau o Ddolgellau i Fethel.

O'r Ysgol Cymerodd yr ysgol ran unwaith eto eleni yn her flynyddol dull Mathletics o gyflwyno Mathemateg i ddisgyblion o flynyddoedd 1 - 6. Anhygoel yw cyhoeddi, pan ryddhawyd y tabl fod Ysgol Bethel yn y Sed safle ar restr



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720



Parhad BETHEL



y byd. Am y tro cyntaf erioed roedd y pum ysgol uchaf yn y tabl yn ysgolion Prydeinig, ac roedd yr ysgol fach yma yng nghysgod yr Wyddfa yno ar y Copa.

Daeth Cwmni Sioe Mewn Cymeriad draw i'r ysgol i gyflwyno eu Sioe 'Taith yr Iaith' i ddisgyblion 5/6. Yr oedd yn gyflwyniad ac iddi neges bendant a chafwyd ymateb bositif iawn gan y disgyblion.

Ar gyfer dydd Plant Mewn Angen pyjamas oedd y wisg ysgol am y diwrnod. Hefyd bu Bl.6 yn brysur yn trefnu gweithgareddau hwyliog a gemau amrywiol. Llwyddwyd i godi £315 ar gyfer yr elusen.

Un clwb sydd wrth fodd Bl. 5 a 6 yw cyfarfodydd Clwb Iaith Mandarin, sy'n cyfarfod ar bnawn Mercher. Daw merch draw i drwytho y plant yn yr iaith. O gofio safle China yn sefyllfa ariannol a masnach byd-eang, efallai bydd y gallu i gyfathrebu yn iaith Mandarin yn elfen bwysig i sicrhau swydd i un o'r disgyblion mewn blynnyddoedd i ddod.

Wel, dyna fy llith fisol wedi gorffen. Cofiwch, os oes gennych unrhyw stori, hysbyseb, cyfarchiad neu adroddiad dewch ac o draw acw. Fy mwriad yw adlewyrchu bwrwm y pentref ar hyn o bryd a'i gofnodi yn Eco'r Wyddfa, y papur lleol sy'n adlewyrchu newyddion lleol.

Ar ran Mary a minnau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi.

Clwb Bro Bethel Daeth nifer dda o aelodau i gyfarfod y mis yma dan lywyddiaeth yr Is-lywydd, Richard Lloyd Jones. Tasg hawdd oedd cyflwyno'r wraig wadd, sef Eirlys

Williams, gan mai un o ferched Bethel ydi Eirlys. Bu wrthi'n brysur yn dangos i ni sut i greu nifer o ddanteithion blasus, a chafodd bawb gyfle i flasgu beth oedd wedi cael ei baratoi gyda'r banad. Y mis nesaf bydd yr aelodau yn gwledda yn Y Felin i fwynhau cinio Nadolig. Bydd y bws yn cychwyn o Penrhos am 12.00.

Merched y Wawr Hoffai Merched y Wawr Bethel ddiolch am y gefnogaeth i'r bore coffi a drefnwyd yn ddiweddar i gasglu arian at Gronfa Calonnau Bethel. Diolch i'r Cyngorydd Sion Jones am helpu i osod yr offer technoleg gwybodaeth. Llwyddwyd i godi £560 at y gronfa.

Y Gymdeithas Lenyddol Agorwyd gweithgareddau'r Gymdeithas eleni yng nghwmni Ann Pierce Jones, Hendre Cennin. Croesawyd pawb ynghyd gan Lywydd y noson, Gwyneth Jones, a chafwyd sgwrs tu hwnt o ddifyr gan Ann yn olrhain ei hanes ar sut y daeth i ymddiddori mewn cerddoriaeth. Roedd yr Ysgol Sul wedi bod yn ddylanwad mawr arni pan yn blentyn a bu'r profiad o sefyll o flaen cynulleidfya yn ifanc yn werthfawr iawn iddi. Yn dilyn magu pedwar o blant, braf oedd iddi basio ymlaen ei harbenigedd ym myd cerdd dant a chanu, ac erbyn hyn mae'r pedwar yn ymddiddori yn y grefft a hwythau hefyd wedi pasio ymlaen i'w plant ei hunain. Talwyd gair o ddiolch am noson gartrefol braf gan Anne Elis. Noson Nadoligaidd fydd y tro nesaf ar Rhagfyr 12 am 7.00, gyda'r aelodau yn cymeryd rhan a bydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson.



Llongyfarchiadau i Ellis Jones, 14 oed o fferm y Fachell. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth barnu carcass ŵyn yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Roedd yn cystadlu ar ran Rhanbarth Eryri yn yr oedran dan 16. Tipyn o gamp.

NEWYDDION O SEION

Dymunwn pob bendith i Aeron Hughes, mab Ronnie a Gwenda, a sefydlwyd yn weinidog ar bump o gapeli Annibynol yn ardal Dolgellau yn ddiweddar. Ers sawl blwyddyn mae Aeron wedi mwynhau 'dod adref' i gynnal oedfaon yng nghapeli Bro'r Eco. Rydym wedi tystio i'w arddull fywiog, pendant ag yn enwedig cyfoesdd ei neges. Bu Aeron yn Athro Saesneg yn Ysgol Brynrefail, ac yna darlithydd rhan amser yn adran Saesneg Coleg Meirion-Dwyfor.

Llongyfarchiadau i Sion Emlyn Parry ar dderbyn gradd 2:1 mewn Perfformio yng Ngholeg Prifysgol Cymru y Drindod/Dewi Sant yng Nghaerdydd. Am y 5 mis diwethaf bu Sion yn ehangu eu brofiad draw yng Ngholeg Perfformio Long Beach, California. Ei fwiad yw cymhwyso i fod yn Athro Pwnc Drama. Bu Sion yn ymwneud ag agweddau o berfformio ers sawl blwyddyn fel aelod o gwmni ieuencid SBARC yn y Galeri, Caernarfon. Bu hefyd yn y cast i nifer o gynhyrchiadau cwmni drama yr Urdd. Yn eu mysgr oedd taith i'r Wladfa i berfformio drama Y Mimosa i gyd-redeg a dathliadau 150 mlwyddyn y glaniad gwreiddiol.

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a

John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd Dda gan
bawb yn Ysgol
Brynrefail.

Ysgol Brynrefail

Eleni cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar ddydd Iau, 7fed Rhagfyr yn neuadd yr ysgol. Yr oedd y diwrnod o gystadlu yn benllanw ar waith paratoi ac ymarfer ers wythnosau a'r chweched dosbarth wedi bod yn hynod o brysur yn paratoi'r gwahanol gystadlaethau.

Diolch i gapteiniaid y tai i gyd, y chweched dosbarth am hyfforddi, yr holl ddisgyblion a gymrodd ran a'r athrawon i gyd a fu wrthi'n paratoi ar gyfer cynnal eisteddfod ysgol fwyaf llwyddiannus ysgolion Cymru. Ymlaen yn awr at Steddfod 2018!






Glenys Day - 'Crefftau Rallt', Brynrefail



Alwen Mai Roberts, Llanberis



Ffair Grefftau Cynhaliwyd y Ffair Grefftau yn Caban ddydd Sadwrn a Sul, Tachwedd 25ain a'r 26ain. Mae'r Ffair wedi sefydlu ei hun ers nifer o flynyddoedd a'r cyfan wedi cychwyn gyda brwdfrydedd nifer helaeth o grefftwyr lleol sy'n cyfarfod yn Caban bob bore Mawrth i ymarfer eu doniau a rhannu eu sgiliau ag eraill. Trefnwyd y Ffair eleni gan Annie Rosewarne. Arddangoswyd

ystod eang o grefftau – celfi cywrair o goed, gemwaith, nwyddau yn defnyddio amrywiaeth helaeth o decstiliau, gwaith arlunio, cardiau cyfarch a nwyddau addas ar gyfer y Nadolig. Cafwyd deuddydd prysur yn y ffair a chaffi Caban. Yn y ddau lun gwelir Glenys Day o Frynrefail gyda'i nwyddau llawn syniadau gwreiddiol wedi eu sylfaenu ar y grefft 'decoupage' ac Alwen Mai Roberts o Lanberis gyda chrefftau gwlân a chardiau cyfarch

Sefydliad y Merched Mae tymor yr hydref wedi bod yn llawn o amrywiol weithgareddau. Daeth Alison a'i chwaer Pat o'r busnes 'Extreme Knitting' yn Llandudno i'r cyfarfod cyntaf. Dangoswyd nifer o eitemau gwau ardderchog oedd yn cael eu datblygu ganddynt a'u gwerthu yn eu siop. Cawsom fel aelodau gyfle i roi tro ar wau gyda gweill rhyfeddol o fawr oedd yn cael eu defnyddio i wau blancedi. Roedd syniadau modern a phatrymau yn cael eu datblygu yn gyson gan y perchnogion a'r cyfan yn werth eu gweld.

Cynhaliwyd Cyngor Hydref y Ffederasiwn yn Ysgol Brynrefail ac aeth nifer dda o'r aelodau i'r

Cyfarfod. Ymhlith nifer o faterion, cawsom glywed adroddiad Mrs Mair Stephens, Cadeirydd NFWI Cymru ac i gloi'r prynhawn fe'n diddanwyd gan Gôr Meibion Bangor a'u harweinydd Lowri Prys Roberts. Roedd y côr yn ardderchog yn canu nifer o ganeuon enwog ac unawdau gwerth chweil.

Trefnwyd Sioe Ffasiynau yr hydref gan Pat a Grŵp Eryri o'r Sefydliad yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis. Roedd y dillad wedi eu cyflwyno gan aelodau y Grŵp ac aelodau o gangen Brynrefail ac Arfon oedd yn modelu'r dillad. Roedd yn noson lwyddiannus iawn a gwerthwyd y dillad ar y terfyn gyda'r elw yn mynd at waith Grŵp Eryri.

Roedd noson Swper y Cynhaeaf eleni wedi ei threfnu gan y Ffederasiwn. Yn rhan gyntaf y noson roedd arddangosfeydd amrywiol o drefniadau blodau gan Pat ac Anita oedd yn gweddu i'r hydref a Chalan Gaeaf. Tra'n creu y trefniadau hyn roedd nifer o aelodau o gangen Brynrefail ac Arfon yn adrodd penillion i gyd-fynd â naws pob trefniant. Wedi egwyl mwynhawyd swper o lobscows a theisen afal wedi eu paratoi gan y Ffederasiwn.

Yng nghyfarfod y gangen leol ddiwedd Hydref croesawyd Eifion ac Elisabeth Williams i adrodd hanes eu taith i Siapan. Bu yn noson bleserus yn gwrando ar eu profiadau a gweld y lluniau diddorol o'r wlad arbennig honno.

Noson y Cyfarfod Blynyddol oedd cyfarfod Tachwedd o'r gangen leol gyda Pat Jones yn dangos crefftau Nadoligaidd. Bu nifer o'r aelodau yn dilyn cyrsiau undydd ym Mhlas Tanybwllch yn ystod y mis a chymryd rhan yng Ngwasanaeth Carolau Grŵp Eryri yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda.

Edrychir ymlaen am y daith i Gaer ar Ragfyr 20fed a chael cinio Nadolig yn Mill Hotel ar y gamlas.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Jennie Angharad Roberts Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i ffrindiau ac i bawb ym Mhlas Pengwaith lle mae'n cael gofal arbennig y dyddiau hyn.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon arbennig – Yn ystod tymor y Nadolig bydd dau wasanaeth i ddatlu'r Wyl - oedfa ar thema'r Adfent dan ofal y Canon Idris Thomas, Deiniolen a Gwasanaeth Nadolig dan nawdd yr aelodau a'r Gweinidog.

Dymunwn fel Eglwys fendithion y tymor i'r oll o'n cydnabod a phob dymuniad da i'r Flwyddyn Newydd.

Oedfaon Ionawr 2018 am 5 yr hwyr

7: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

14: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon

21: Cyfarfod Gweddi

28: Parch Cath Williams, Caernarfon

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
 (Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
 Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Beics Menai Bikes
 RHAN O DEULU ANTUR WALUNFAWR
 BEICS NEWYDD AC OFFER BEICIO
 AR GYFER OEDOLION A PHLANT

 ANRHEGION 'DOLIG FFANTASTIG!
 (01286) 676 804 NEU 07436 797969
 BEICS MENAI, 1 Cei Llechi, Caernarfon
 E-POST: gary.leadbitter@anturwalunfawr.org

CRWYDRO Teithiau ER BUDD 2018
 Dwy daith goflawdy
 Brasil, Yr Ariannin a'r Wladfa Gymreig
31 Mai - 16 Meh, 2018
 Rhinweddau De Affrica
Medi 8-22, 2018
 Y ddwy daith i gynnwys: Gwestai a brecwast oni nodir yn wahanol • Heddiadau rhyngwladol a mewnlod • Cludiant i ac o faes awyr Manceinion • Cludiant a thwyyswyr profiadol trwy gydol y daith.
 Am fwy o fanylion a ffurflen archebu, cysylltwch â Dafydd Owen Arwel, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7DL
 01286 881 911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
 ebost: crwydro@crwydro.com
www.crwydro.com

Gwasanaethau y Capel.

Ar nos Sul, Rhag 17, am 5.30 p.m. cynhelir Oedfa'r Nadolig gyda'r Gweinidog a phlant a phobl ifanc y capel. Croeso cynnes i bawb a bydd paned a mins pei ar gael ar y diwedd. Ar fore Dydd Nadolig bydd oedfa gymun yn y Cysegr, Bethel am 10.00.

Ar bnawn Sul, Ionawr 7ed, am 2.00 bydd oedfa gyntaf y flwyddyn newydd dan ofal y Gweinidog, y Parch Marcus Robinson.

Ar bnawn Sul, Ionawr 21ain, am 2.00 bydd y gwasanaeth dan ofal y Parch Reuben Roberts.

Canlyniadau y Dynfa Misol

Mis Hydref. 1af (37) £40: Ceri Evans, 6 Erw Wen. 2il (15) £25: Robat Roberts, 23 Rhes Glan Gwna. 3ydd (98) £15: Iona Ceiriog, 4 Erw Wen. 4ydd (64) £5: Alun Roberts, Monfa.

Mis Tachwedd. 1af (38) £40: John ac Anwen, Ty'n Gors Newydd. 2il (70) £25: Berwyn Roberts, Sea View. 3ydd (78) £15: Nan Hughes Roberts, 10 Erw Wen. 4ydd (60) £5: Brenda Tweedale, 14 Erw Wen.

Bydd canlyniad y dynfa fawr Nadolig yn yr Eco ddiwedd Ionawr.

Gwerthfawrogiad

Rydym yn ffodus iawn yng Nghaeathro i gael Pwyllgor Cae Chwarae gweithgar trwy gydol y flwyddyn. Mae'r goeden Nadolig i fyny eisoes a bydd canu carolau o gwmpas y goeden fel arfer eto eleni. Bydd baner wedi ei gosod ar waelod y goeden i hysbysebu y dyddiad a'r amser, felly cofiwch ddod i ganu.

Cyfarchion yr Wyl

Dymuna Bethan, Aled a Rhiannon Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco. Daliwch ati i gefnogi eich papur bro yn 2018.

Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro - cafwyd Cyfarfod Blynnyddol llwyddiannus ar yr 20fed o Dachwedd 2017 gyda nifer teilwng o drigolion y pentref yn troi allan i gefnogi. Ail-etholwyd y Swyddogion - Hefin Hughes (Cadeirydd), Rhys Jones (Trysorydd), Mair Jones (Dyletswyddau Ysgrifenyddol) a Matthew Jones (Swyddog Amddiffyn Plant). Etholwyd dau aelod newydd - Tudur Trenholme a Jade Baker - i ymuno â'r aelodau sydd yn parhau ar y Pwyllgor - Huw Ceiriog, Richard Jones, Eryl Jones, Paul Evans, Jayne Lloyd, Dewi Jones. Trafodwyd mantolen ariannol gan nodi, gyda diolch i bawb sy'n cyfrannu pob mis, prif ffynhonnell incwm y Gymdeithas ydi'r Tynfa. Mynegwyd gwerthfawrogiad i bawb sydd wedi gwneud cyfraniad ariannol i'r Gymdeithas. Nodwyd fod nifer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn gan gynnwys: codi coeden Nadolig a chanu carolau, parti Nadolig i'r plant, Helfa Wy Pasg, noson Miri Medi, ymgyrch hel sbwriel, gweini te yn Marathon Eryri. Gyda chefnogaeth y pentref, mae'r Pwyllgor yn gobeithio trefnu rhaglen lawn o weithgareddau unwaith eto yn 2017-18. Nodwyd hefyd y gwaith da o gynnal a chadw y ddau gae chwarae sydd dan ofal y Gymdeithas.

Gwasanaeth y Cofio

Ar bnawn Sul ddechrau Tachwedd cynhaliwyd gwasanaeth

arbennig yn y capel i gofio'r rhai a gollwyd ac a gwmpodd yn y Rhyfel Byd 1914-1918, ac i ddadorchuddio Cofeb newydd i restru enwau y milwyr o'r ardal hon. Darganfuwyd y rhestr wreiddiol flynyddoedd yn ôl pan adnewyddwyd adeilad y capel a'r festri ac fe'i cadwyd yn ddiogel gan deulu y diweddar Ifor Hughes, Lleifior. Mae enw tad Ifor, a'i frawd Deiniol, Mr H.M. Hughes ar y rhestr gan iddo fod yn garcharor rhyfel, ac oni bai am ddiffyg ar wn un o'r Almaenwyr yn y ffosydd buasai Mr Hughes wedi colli ei fywyd yn y fan a'r lle. Roedd yn wasanaeth bendithiol iawn a daeth nifer fawr ynghyd i gofio. Dadorchuddiwyd y Gofeb gan Y Parch Marcus Robinson. Mae llyfryn o wybodaeth pellach ar gael i'w ddarllen ar y bwrdd o fewn drws y capel.

Clwb Merched

Yn ein cyfarfod ddiwedd mis Hydref cawsom sgwrs hynod o ddifur gan Mrs Eirlys W. Jones, Chwilog, am ei chysylltiad agos â theulu o West Virginia, sydd yn perthyn i'r enwad Cristnogol, y Mennonites. Enwad heddychlon yw y Mennonites, yn perthyn i'r Amish, ac yn syml iawn eu bywydau. Dechreuodd perthynas Eirlys a'i gŵr pan ddaeth Russel a'i deulu am wely a brecwast i'w cartref yn Chwilog, a phrynu ci defaid Cymreig i'w fferm dwrciod yn ôl yn yr Amerig. Wedi sawl gwyliau yn y naill gartref a'r llall ymddiddorodd Eirlys ym mywyd y Mennonites, y merched yn treulio gaeafau yn cwiltio'r cynfasau lliwgar traddodiadol ac yn storio bwyd y cynhaeaf, a'r gwŷr yn ffermio a chadw gweithdai haearn, lledr a chrochenwaith. Bywyd syml hunangynhaliol tebyg i'r Gymru a fu. Diolchwyd i Eirlys gan Rhiannon.

Cyfeiriodd y llywydd, Beryl Roberts, at brofedigaethau dwy o'r aelodau, sef Llio Jones wedi colli ei mam yn ddiweddar, ac hefyd Dr Helen Jones sydd wedi colli ei chefnider, Palmer, yng Nghaernarfon. Llongyfarchwyd Celt, mab Bethan Iwan, ar ei swydd newydd ym myd newyddiaduraeth yn Llundain.

Cynhelir ein cinio Nadolig yn Gardd Fôn, a chofiwch bod croeso cynnes i holl ferched Caeathro a'r cylch pan fyddwn yn ail ymgynnull ddechrau 2018 gyda sgwrs ar gasglu cardiau post gan Duncan Brown o'r Waunfawr, am 8.00 nos Iau, Ionawr 25ain.

Atodiad Clwb Merched

Bydd cyfarfod cyntaf 2018 ar Ionawr 25 yng Nghanolfan y Capel pan fydd Duncan Brown o'r Waunfawr yn rhoi sgwrs ac yn arddangos ei gasgliad o gardiau post. Yn y cyfamser cofiwch gasglu eich stampiau dros y Nadolig i Haf sydd yn codi arian i Gymdeithas y Deillion.

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Oddiwrth Dylan A'r Staff

SHOP CHIPS TEGFAN

Y SGWÂR LLANRUG

(01286) 671211



Gwesty Dolbadarn

Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

GERAINT OWEN

CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



Ysgol Waunfawr



Ymweliadau ac Ymwelwyr

- Cafodd disgyblion dosbarth Mynydd Du weithdy yn yr Amgueddfa yn Llanberis i ddysgu am ddiwrnod golchi yn oes Fictoria yr wythnos diwethaf a bu i bawb fwynhau yn arw.
- Daeth Mr Jonh Dilwyn o'r archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 5 a 6 a oedd wedi bod yn astudio cyfnod yr Ail Ryfel Byd a chafwyd cyfle i weld artiffactau diddorol o'r cyfnod.
- Rhoddodd yr awdur Gareth Evans weithdy ar ysgrifennu creadigol i ddisgyblion blwyddyn 6 ac roedd y disgyblion wedi mwynhau darllen rhannau o'i nofel newydd i blant Gethin Nyth Bran. Dymunwn bob llwyddiant i Gareth gyda'r llyfr a diolch i Anna George am drefnu'r ymweliad.
- Bu plant dosbarthiadau Mrs Ceri Evans a Miss Sioned Hughes fwynhau ymweld â Chanolfan Arddio Fron Goch yn ddiweddar. Roeddynt wedi eu cyfareddu gyda'r addurniadau a goleuadau'r Nadolig. Diolch am y croeso.
- Bu Criw Urdd Arfon yn difyrru'r disgyblion mewn sesiwn gemau llawn hwyl yn y Ganolfan ddiwedd mis Tachwedd- pawb wedi mwynhau ac yn chwys domen erbyn diwedd y sesiwn.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Roedd yn braf gweld y plant i gyd wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ddydd Gwener Tachwedd yr 17eg. Yn ystod y dydd cafwyd llawer o weithgareddau i ymwneud â'r diwrnod -peintio gwynebau, addurno bisgedi Pudsey, gweithgareddau dosbarth yn seiliedig ar y diwrnod, gwerthwyd breichledi a chlustiau Pudsey Casglwyd £150.00 tuag at yr achos, Diolch i bawb.

Ymgyrch y Plentyn

Diolch hefyd i'r teuluoedd a gefnogodd Ymgyrch Nadolig y Plentyn drwy lewni bocs o anrhegion ar gyfer plant llai ffodus na ni. Mae'n bwysig cofio ar drothwy tymor y Nadolig fel hyn ei bod yn bwysig iawn rhoi ac nid yn unig derbyn. Sylweddolwn hefyd bod rhoi bocs o roddion fel hyn yn gostus y dyddiau hyn. Casglwyd 64 o focsys eleni.

Cyngerdd Nadolig Band Ieuenctid Arfon

Llongyfarchiadau i'r disgyblion o'r Adran Iau a gymerodd ran yng Nghyngerdd Band Ieuenctid Arfon yn Theatr Seilio Nos Fercher Tachwedd yr 22ain. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn gwersi pres yn yr ysgol gan Dylan Williams.

Noson Miri Sion Corn yn yr Antur

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant yn canu carolau yn noson Miri Sion Corn yn yr Antur ar y cyntaf o Ragfyr. Pawb wrth eu boddau yn gweld Santa yn ei groto. Diolch i Tracey / Diane / Dewi a'r gweithwyr i gyd am drefnu.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Cynhelir ein Sioeau Nadolig pnawn a nos Fawrth Rhagfyr y 19eg a phnawn a nos Fercher Rhagfyr y 20fed.
- Bydd plant y Babanod yn mynd i'r Antur i gael brecwast gyda Sion Corn fore ddydd Iau a Gwener Rhagfyr yr 21ain a'r 22ain.
- Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener Rhagfyr yr 22ain ac yn ailagor ddydd Llun Ionawr yr 8fed.

Parhad WAUNFAWR

Pontio

Yn Pontio o ddydd Iau Rhagfyr y 14eg hyd ddydd Mawrth Rhagfyr 19eg, bydd Cwmni Murmur a Pontio yn cydweithio ar y cynhyrchiad hudolus "Caban Hud".

Crëwyd y sioe gan Rhodri Siôn a'r gerddoriaeth gan Osian Gwynedd, dau o hogia'r Waun. Bydd Miri Siôn eto o'r Waun yn cymryd rhan ynghyd â Morfudd Hughes a Manon Ala.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd oedd: £30: Mr W.M. Catt, Awel y Môr; £20: Mrs Gladys Greasley, Minafon; £10: Mrs Alice Johnstone, 10 Tref Eilian.

Dyddiadau i'w Cofio

Dydd Sul – Rhagfyr 24, Noswyl y Nadolig am 4.30 o'r gloch bydd croeso i ni i gyd yng Nghapel y Waun i ymuno â'r rhai fydd yn cyflwyno eitemau Nadoligaidd a'n rhoi yn naws yr Ŵyl arbennig hon. Yn ystod y gwasanaeth gwneir casgliad ariannol a fydd yn cael ei gyflwyno i achos arbennig.

Dydd Sul – Ionawr 14 yn Siop Pant Waun cynhelir gweithgareddau i'r teulu. Cewch fwy o fanylion yn y siop ddechrau'r flwyddyn newydd.

Diolch i ddisgyblion yr Ysgol Gynradd am gynnal Gwasanaeth Cofio o amgylch y Gofgolofn ar fore Gwener, Tachwedd 10. Roedd yn wasanaeth effeithiol ac yn gwneud inni werthfawrogi a diolch.

Diolch hefyd i'r Cynghorydd Edgar Owen, Shoned Griffith, Liz Daniels a Manon a'r plant a fu'n brysur yn casglu sbwriel o amgylch y Ganolfan a'r pentref. Casglwyd llond naw bag du. Beth am i ni i gyd wneud ein gorau i roi ein sbwriel yn y biniau a chadw'r

pentref yn dachus. (Llun yn rhifyn Rhagfyr)

Dymuna Anne Clark ddiolch i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth. Diolch o galon.

Llifogydd Rydym yn meddwl am y teuluoedd a gafodd ddŵr i'w cartref yn ystod y glaw trwm ar 22ain o Dachwedd. Hyderwn yn fawr eich bod wedi dod yn ôl i drefn erbyn hyn.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Hydref bu William, Arosfa, yn dathlu cyrraedd ei ben-blwydd yn 21 oed ac yn ystod mis Rhagfyr bydd Angharad Jones, Bryn Eirion a Gwen Townsend, Stad Llys y Waun hwythau yn dathlu eu un ar hugain oed. Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch.

Ar Ragfyr y cyntaf roedd Mrs Alice Johnstone yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Gobeithio i chi gael diwrnod da iawn.

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau i Mrs Olwen Owen, Stad Tref Eilian, ar ddod yn hen nain i or-ŵyr bach, Deian Tudur, mab i'w hwyres, Sian a'i chymar Alun. Mae Megan wedi mopio'n llwyr o gael brawd bach a Gwenno (Syrjyri) a Michael yn nain a taid eto.

Daeth Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen yn hen nain i Eila, merch fach i'w hwyres, Emma a'i chymar Cameron yn Blaenau Ffestiniog. Dyma Glenys, merch Mrs Thomas a'i phriod, Roger, yn daid a nain.

Daeth Mrs Emsyl Jones, Stad Bro Waun, yn hen hen nain i Matilda, merch fach i Kyle (gor-ŵyr Emsyl) a'i bartner sydd yn

byw yn Rugby. Mae Alun Rhys (mab Emsyl) a'i wraig Christine yn daid a nain i Kyle.

Ganwyd merch fach, Mila Angharad, i Jan a Mark, Stad Bro Waun, chwaer fach i Mia, Mari, Megan, Sioned, Rhys ac Ifan. Wyres fach i Tom a Shirley Sykes, Tyddyn Syr Huw ac i Carol, Stad Bryn Golau, a gor-wyres i Mrs Margaret Jones, Teras Glyn Afon. Llongyfarchiadau mawr i'r teuluoedd i gyd a chroeso i'r rhai bach.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Beti Owen, Stad Tref Eilian, a Garry Jones, Stad Dôl Erddi wedi iddynt gael gofal yno. Hefyd croeso adref i Emrys Lloyd, Treflan Isa, wedi triniaeth ar ei benglin. Cymerwch ofal mawr ohonoch eich hunain. Hyderwn y byddwch yn gwella a chryfhau. Mae'n dda gweld Tina, Stad Ael y Bryn, yn gwella wedi iddi gael ei chymryd yn ôl i'r ysbyty.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Yvonne Jones, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad; taid annwyl i'r plant.

Merched y Wawr Dechreuwyd

ar y dathliadau Nadolig mewn steil nos Iau, Tachwedd 30, gyda'n cinio Nadolig yng Ngwesty Bron Meirion yng Nghaernarfon. Roedd yn braf iawn gweld cymaint o griw wedi dod ynghyd. Cafwyd llawer iawn o hwyl, ac roedd y cinio'n fendigedig. Diolch yn fawr iawn i staff Bron Meirion am y croeso cynnes a'r bwyd cartref blasus. Diolch yn fawr hefyd i Heulwen Huws a Janet am drefnu'r cwbl.

Cynhelir cyfarfod cyntaf 2018 nos Iau, Ionawr 25, yn y Ganolfan, Waunfawr, pan fyddwn yn croesawu Mr John Grisdale o Gaernarfon atom i sgwrsio am ei waith gyda Thim Achub Mynydd Llanberis. Ar Chwefror 22 byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi yn gynnar yng Nghaffi'r Antur. Mae croeso cynnes bob amser i aelodau newydd.

Cyfarchion y Tymor

Dymunwn y gorau i bawb dros Ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Anfonwn gofion cynnes at bob un sydd yn derbyn gofal yn eu cartref ac mewn cartref preswyl.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Ionawr


7: Cyfarfod Dechrau'r Flwyddyn

14: Y Parch Non Wyn Powell-Davies (Cymun)

21: Y Parch Angharad Roberts, Trefor

28: Y Parch Eifion W. Williams

Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod am 10.00 y bore ar Ionawr 14 yn y capel. Mae croeso i aelodau newydd ymuno.



Mynydd Gwefru
LLANBERIS

2 o'r gloch DYDD SUL

RHAGFYR 17 2017

Gyda **Seindorf Arian Deiniolen**

A Chôr Meibion Dyffryn Peris

Mynediad am ddim-Gasgliad tuag at Achos Teilwng

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Ffeindio fy Ffordd Adref

Nid yn amlybyddyr “Eco” yn rhoisylwilyfr Saesneg ei iaith a rei dudalennau; yn enwedig a’r llyfr hwnnw wedi ei gyhoeddi yn Awstralia. Flynyddoedd yn ol cyhoeddwyd llythyr Saesneg yn yr “Eco” wedi ei ysgrifennu gan wr yn Lloegr oedd yn ceisio dysgu Cymraeg oherwydd fod un o’i blant wedi priodi Cymraes a symud i’r ardal i fyw. A gofiwch chi’r mudiad ‘Pontio’ fu’n ceisio cymhathu mewn fudwyr di-Gymraeg a’u hannog i ddysgu’r iaith a dod yn rhan o’r gymdeithas? Do, fe fu llwyddiannau, gydag Emma Chappell o Ddeiniolen yn ennill tlws Dysgwr y Flwyddyn eleni, a bellach yn aelod o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, ac yn weithgar o fewn ei chymuned. Ond, rhaid cydnabod fod nifer helaeth hefyd yn gwneud dim ymdrech i ddysgu’r iaith, gan ddefnyddio’r esgus “ei bod yn rhy anodd” – a hynny yn un o froydd Cymreiciaf y byd! Dychmygwch felly, ddysgu’r iaith mewn gwlad ym mhen arall y byd. Dyna a wnaeth Liz Corbett, llyfrgellydd yn Melbourne, Awstralia. Darllenwch am ei hymdrech a’i llwyddiant, yn union fel yr ysgrifennodd hi’r hanes – ac yna adroddwch ei hanes i unrhyw un o’ch cyfeillion/cymdogion sy’n gyndyn o ddysgu’r iaith.

Ffeindio fy Ffordd Adref
Beth yw’r ots gennyf i am Gymru?
Damwain a hap
Yw fy mod yn ei libart yn byw.

Do’n i ddim yn bwriadu dysgu Cymraeg. Fe wnaeth ddigwydd drwy broses damwain a hap. Pan droais i’n bedwar deg oed, a chael crisis canol bywyd, penderfynnais fy mod i moyn trio ysgrifennu nofel. Dw i erioed wedi ysgrifennu nofel o’r blaen. Ond ro’n i wrth fy modd astudio hanes. Symudais i Awstralia yn fy mhlentynodod. Felly, penderfynnais drio ysgrifennu nofel mewn fudo Awstraliaidd.

Caeth fy nhad ei eni yn Lloegr. Ond Cymraes oedd fy mam. Felly, ar fympwy, penderfynnais gynwys cwpl o gymeriadau Cymreig yn y stori. Edrych yn ôl, dw i’n synnu pa mor achlysurol roedd y penderfyniad. Er hynny, mae ef wedi newid fy mywyd yn gyfan gwbwl.

Do’n i ddim yn gwybod llawer am Gymru ar y pryd. Dim ond hanes y dywydiant glo (daeth fy mam o’r De) a bod pobl o Gymru yn hoffi rygbi. Hefyd, fe wyddais i am yr iaith Gymraeg. Ro’n i eisiau i fy nghwpl Cymreig roi ysbrydoliaeth i fy mhrif gymeriad, glas-lances pymtheg oed. Ond do’n i ddim yn meddwl byddai’n ffeindio glowyr neu rygbi yn ysbrydoliaethus iawn. Ar ôl tipyn bach o waith ymchwil sylweddolais fod gan Gymru hanes barddonol hefyd. Darllenais y Mabinogion a llawer o chwedlau Cymreig. Fe dyfodd y cwplw o Gymry yn storiwyr. Wnes i ddod ar ddraws gwybodaeth am ddosbarthiadau Cymraeg ym Melbourne hefyd. Ro’n i’n meddwl: efallai fydd hi’n defnyddiol i ddysgu tipyn bach am yr iaith. Wnes i gofrestru yn y dosbarth am un tymor!

Roedd pedwar o blant gennyf, yn byw yn fy nghartref i yn y dyddiau ’na. Mae’n rhaid i fi gydnabod, oedd y gallu i ddweud, I’m going to Welsh class, a cerdded mas y drws bob nos Fawrth yn rhan o’r apêl. Ond hefyd, wnes i ffeindio’r geiriau Cymraeg mor brydferth. Trodd un tymor o ddosbarthiadau i mewn i ddau dymor ac wedyn tri. Cyn i fi wybod, roeddwn wedi syrthio mwen caru gyda’r iaith Gymraeg. Do’n i erioed wedi disgwyl siarad yr iaith. Ro’n i wedi astudio Siapanaeg yn yr ysgol ac ro’n i’n anobeithiol yn llwyr. Ond ‘roedd ysgrifennu nofel gyda chymeriadau Cymraeg wedi dihunno darnau cudd ynof, darnau do’n i ddim wedi sylweddoli eu bod yn bodoli.



Ar ôl gorffen braslun cyntaf fy nofel, ro’n i’n lwcus i gael fy enwi ar restr fer am gwobr datblygu llawysgrif. Hefyd, enillais y Bristol Short Story Prize gyda stori am blentynodod fy mam. Wedyn - trychineb. Dechreuodd ein merch ieuengaf ni weithio ei ffordd trwy rhestr o hunllefau gwaethaf pob rhiant. Wnaeth hi rhedeg bant a byw ar y strydoedd, brifo ei hunan, cwmpo mas o’r ysgol a siopladrata. Roedd ei hymddygiad yn cael effaith ofnadwy ar fy iechyd meddwl. Allwn i ddim ysgrifennu. Allwn i ddim gweithio. Mynnodd fy ngwr i bod rhaid i fi fynd ar wyliau am dipyn. Roedd gennym llawer o bwyntiau “Frequent Flyers”. Penderfynnais teithio i Gymru - gwlad yr iaith a’r straeon.

Er mwyn paratoi ar gyfer fy ngwyliau, awgrymodd ffrind dylwn i drio cwrs Say Something in Welsh. Roedd y syniad o drio cwrs ar lein rhyfedd yn llenwi fi llawn gofid. Ond penderfynnais drio un gwers. Mae Aran - y dyn ar y podllediad - yn mor garedig. Dwedodd e wrth pawb ein bod yn gwneud yn dda iawn ac y byddwn yn cael llwyddiant. Bydd popeth yn iawn. Roedd ei eiriau fel glaw ar ddaear sych. Wnes i wers bob dydd, weithiau dwywaith y dydd. Cwmpodd pum mlynedd o dosbarthiadau i’w lle - fel ceiniogau yn syrthio, syrthio, syrthio. Nawr, dweda i wrth bawb – gerddais i drwy’r amser tywyll yn gafael ar gwt yr hen iaith. Es i i gwrs haf yn Aberystwyth y flwyddyn wedyn. Pan ro’n i yno, cwrddais a Veronica Calarco, arlunydd o Awstralia oedd yn byw yng Nghymru. Pan wnaeth hi sefydlu Stiwdio Maelor yng Nghorris (stiwdio preswyl ar gyfer ysgrifennwyr ac arlunwyr) ceisais am le fel y gwirfoddolwr cyntaf.

Arhosais saith mis yn Siwdio Maelor. Wnes i ymuno a grwp Merched y Wawr a chofrestru mewn dosbarthiadau Cymraeg er mwyn gwella fy Nghymraeg. Gorffenisais i fy nofel pan ro’n i’n byw yno hefyd. Mae hi’n nofel “coming-of-age” hanesyddol wedi ei osod ar long allfudiad. Mae’r storiwyr Cymreig yn dweud eu chwedlau Cymreig yn ystod y daith. Nofel ychydig yn hudol a rhyfedd i ddweud y gwir. Do’n i ddim yn siwr os byddai unrhywun yn moyn cyhoeddi hi. Ond yn yr eilaid, yn eistedd gyda y mynyddoed Eryri o gwmpas fi, doedd cyhoeddu ddim yn bwysig, achos trwy’r broses creadigol, ro’n i wedi ffeindio fy ffordd adref.

“The Tides Between” yw nofel gyntaf Liz Corbett, ond mae eisoes yn gweithio ar ei hail nofel, ac y mae i honno gefndir Cymreig hefyd, yn ymwneud ag Owain Glyndwr.

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd
dda oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA



CAEATHRO

Ffôn: 673096



**Gwasanaeth
Torri Lawr 24 awr
M.O.T. * Trwsio Ceir**



Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd,
diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

AC Arfon Yn Gobeithio Am Ddyfodol Tecach i Fyd Peirianeg

“Does ‘na ddim y fath beth â jobs i genod a jobs i hogiau, er bod Theresa May yn hoff o ddweud fel arall!”

Aeth AC Arfon, Sian Gwenllian, i Ysgol Brynrefail, Llanrug igwrdd a chriw o enethod a ddaeth i frig cystadleuaeth cynllunio car rasio yn yr ornest F1 For Schools yn Silverstone gan gynrychioli Cymru yn y rownd derfynol byd-eang yn Malaysia. Roedd Beca Medi Jones, Anna Whiteside Thomas, Eleanor Edwards-Jones, Tesni Smith, Elin Worth a Jess Pritchard yn cystadlu dan yr enw tîm Gwalch Grymus Cymru a buont yn Malaysia am 12 diwrnod yn cystadlu yn erbyn 35 o wledydd eraill.

Meddai Sian Gwenllian, “Roedd hi’n bleser anferth cael cwrdd â’r merched yma. Maen nhw wedi cael llwyddiant aruthrol mewn maes sydd yn draddodiadol yn cael ei gysylltu gyda bechgyn a dynion – er nad oes math o reswm dros hynny gan bod merched llawn mor abl a bechgyn i wneud y math yma o waith, fel mae criw Brynrefail wedi dangos.”

Yn ôl y ffigyrau diweddaraf dim ond 8% o beirianwyr sydd yn ferched sydd yn codi’r cwestiwn a ydi Peirianeg yn cael ei hyrwyddo’n ddigonol fel pwnc i ferched ei astudio.

“Pan roeddan ni’n cychwyn cynllunio ein car ac yn paratoi ar gyfer rowndiau cyntaf y gystadleuaeth mi roedd na dimau o hogia hefyd,” meddai Tesni Smith o Bwlch Derwin, Clynnog, “ond fel aeth yr amser yn ei flaen ddaru nhw stopio dod i’r sesiynau a dim ond ni oedd ar ol.”

Mae Paul Griffiths, athro Dylunio a Thechnoleg Ysgol Brynrefail, yn talu teyrnged i ddyncwch a dyfalbarhad y merched ac yn dweud bod eu sgiliau cyfathrebu a’u gallu i

weithio fel tîm wedi talu ar ei ganfed wrth iddynt rannu dylestwyddau rhyngddynt a chynllunio’r prosiect cyfan yn gelfydd.

“10 mlynedd yn ol pan ro’n i’n mynd a disgyblion i’rgystadleuaeth yma i ddechra dwi ddim yn cofio gweld dim un merch yna ar ddim un o’r timau, heb son am dimau o ferched yn unig. Ond erbyn hyn, wrth i wobrau fel Women in Motorsports gael eu cyflwyno mae pethau wedi gwella, ac roedd na lawer mwy o ferched yn cystadlu eleni. Mae hanner fy nosbarth Blwyddyn 11 i yn enethod, ac mae



rhai o griw Gwalch Grymus Cymru wedi dechrau ail-ystyried beth hoffen nhw ei wneud yn yrfa o ganlyniad i’r profiad yma, gydag o leiaf un yn ystyried peirianeg.”

Gyda’r gap rhwng dynion a merched yn amlwg yn y niferoedd sydd yn gweithio fel peirianwyr ar y funud, y gobaith yw y bydd y genhedlaeth ifanc yn fwy meddwl agored am y maes.

“Dwi’n meddwl ei bod hi’n bwysig bod bechgyn a merched yn derbyn negeseuon positif am bob math o yrfa o oed cynnar iawn,” meddai Sian Gwenllian. “Mae gormod o gyflwyno gwahanol swyddi fel rhai i ferched neu i ddynion, yn hytrach na chyflwyno pob swydd fel rhywbeth gwerth chweil i’r ddau ryw. Does ‘na ddim y fath beth â jobs i genod a jobs i hogiau, er bod Theresa May yn hoff o ddweud fel arall!”



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

CLWB CINIO ARFON

Diolch i gysylltiadau ‘anti’ – Myfanwy Parry – llwyddwyd i ddenu yr amryddawn Gwyneth Glyn i’n diddori ar gyfer cyfarfod ‘Cinio Dolig’ Rhagfyr. A cawsom ein diddori hefyd – yn llon a lleddf – yn gwrandao ar ddoniau geiriol Gwyneth – yn farddoniaeth a chân. Daethom i adnabod Gwyneth drwy’r geiriau – ei hiwmor, ei dawn dweud, a’i dawn i berfformio yn sicr. Codwyd gwên ar y cychwyn gyda’r gerdd Dydd Gwyl Dewi 1979. Sydyn y sylweddolwn nad cerdd boliticaidd oedd hon ond disgrifiad personol o’r diwrnod, sef diwrnod ei chenhedlu yn ystod penwythnos cynhadledd Merched y Wawr draw ym Mhlas Maenan. Yna cerdd ‘Hunaniaeth’. Eto, hiwmor gan iddi ddisgrifio’r profiad yn bedair oed o gael ei gadael ar ben ei hun mewn carafan adeg Steddod Genedlaethol. Yna’r gwewyr o fod eisiau pi-pi ag esgidiau stiletto gorau ei mam yr unig fangre am ollyngdod. Ie, hiwmor naturiol heb ei ddisgwyl. Yna, troi at y gitar a chawsom ein huniaethu â’r llais melodaidd, tawel. Cân y Ddau Forwr, baled yn croniclo gwaith dau o’r teulu a weithiai yn adeiladu llongau ym Mhorthmadog, ond eu gwir ddeisyfiad oedd bod allan ar y môr mawr. Cân y Seren wedyn. Yr un seren lachar a wyliai yn y ffurfafen, a’r bardd yn ei chyffelybu i unigrwydd sawl un yn unig dros yr Wyl, ac yn cofio ambell i seren a oleuodd eu bywydau mewn cyfnodau cynharach. Ac yna cân yn mynegi realaeth cyfnod y Nadolig i lawer un – Dolig Du. Y frwydr i gynnal hen draddodiad yr Wyl ond i be, ac ar ba gost. Ein sobri wedyn gan y gerdd Aberfan a ysgrifennwyd gan Gwyneth pan oedd hi yn Fardd Plant Cymru. Yna carol gyfoes ganddi – ‘I orwedd mewn preseb’. Gorffennodd drwy ganu y gân hudolus ‘Does unman yn debyg i adra’. Cefndir y gân oedd dod yn ôl adref i ardal Cricceth o Gaerdydd y tro cyntaf wedi colli ei annwyl daid Dafydd Glyn. Hon hefyd oedd y gân a ganwyd gan Gwyneth ar faes y Strade yn ystod dydd angladd yr annwyl Ray Gravell. ‘Ond mae adra’n debyg iawn i ti’. Yn amlwg roedd yr aelodau wedi eu plesio gan fod cryn werthiant ar gryno-ddisg ddiweddaraf Gwyneth – TRO – ar ddiwedd y noson. Noson amrywiol, noson o eiriau, a rheini yn eiriau oedd yn ein cyffwrdd.



Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Marwolaeth Ar 10fed o Dachwedd daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Eluned Roberts, Maes Gwylfa, Deiniolen gynt a Chartref Plas Maesincla, Caernarfon, wedyn lle y bu farw yn 92 mlwydd oed ar ôl dros bedair blynedd o salwch blin iawn, gwaetha'r modd. Yr oedd hi bob amser yn siriol ac yn barod iawn ei chymwynas.

Ganwyd Eluned yn Nhan Garret, Dinorwig (un o'r aelwydydd uchaf yng Nghymru), bendigedig o braf yn yr haf. Yr oedd yn un o saith o blant y diweddar Joseff a Katie Lewis, sef y Parch William John Lewis, yr hynaf o'r plant, Goronwy ac Alun a'r diweddar Harry, Ralph, Olwen ac Eluned. Roedd yn fam i Tecwyn, Linda ac Aneuryn a hefyd yn nain gariadus a hen nain falch o'r plantos i gyd.

Bu Eluned yn hynod garedig wrth fy niweddar chwaer pan yn nyrsio yn Uned Gofal Arbennig Ysbyty Dewi Sant Bangor. Bu fy chwaer yn ddifrifol wael pan anwyd ei mab a bu i Luned gymryd gofal ohono nes i fy chwaer wella. Rhywbeth na fyddwn ni fel teulu byth yn gallu ei anghofio. Mae ein dyled wedi bod yn fawr iawn iddi a bob tro yr oeddwn yn ei gweld wedyn yr oedd yn dal i gofio ac, wrth gwrs, yr oedd eisiau gwybod sut yr oedd y ddau yn dod ymlaen. Wedi ymddeol o nyrsio aeth i wneud gwasanaeth gwirfoddol yn yr ysbyty. Dyma lle y cefais i y frainc o weithio efo hi ac yr oeddem yn cael llawer iawn o hwyl. Yr oedd iw' channol am ei hegri a'i hymroddiad a'i chymwynasgarwch. Yr oedd yn ergyd fawr iddi pan fu iddi golli ei gŵr yn hynod o sydyn a bu'n weddw am 48 mlynedd. Ond er y brofedigaeth fawr ni fu iddi suro o gwbl, roedd bywyd yn dal i fynd ymlaen ganddi.

Bu yn aelod hynod o ffyddlon yn Eglwys Sardis ac er iddi fyw a magu'r plant yn Neiniolen, Sardis oedd ei chapel hi a'r plant a phan fyddwn yn mynd i'r gwasanaeth byddai'n rhaid eistedd hefo hi ac, wrth gwrs, roedd yn rhaid rhoi'r byd yn ei le wedi'r gwasanaeth.

Bu'r angladd yn Eglwys Crist Llandinorwig ar ddydd Gwener, Tachwedd 17eg, lle y gwasanaethwyd gan y Canon

Idris Thomas, un arall o blant yr ardal. Talwyd teyrngedau iddi gan ei mab ieuengaf, Aneuryn, a'r Canon Idris Thomas yna fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Macpela.

Mae'r teulu yma wedi bod yn hynod o anffodus yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, colli brawd, sef Ralph, ac ychydig fisoedd yn ôl gwelsant golli ei briod, Laura, ac yn awr colli Eluned. Yr oedd y problemau yna i gyd yn sicr o wneud i'w ffydd a'u ffyddlondeb wegian. Mae'r brawd hynaf, y Parch William John Lewis, sydd ynghanol ei nawdegau erbyn hyn yn teimlo y profedigaethau yn arw ac maent yn dweud yn fawr iawn arno ond yn sicr fe fydd i'w ffydd ddod â rhyw gymaint o dawelwch meddwl iddo.

Cydymdeimlaf yn fawr iawn hefo'r oll o'r teulu gan obeithio y cânt nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll a gobeithio am flwyddyn newydd llawer gwell iddynt.

Eluned, yr anwylaf o'r anwyliaid, cysgwch a gwyn eich byd. Yn angof ni fyddwch byth. Diolch am gael eich adnabod a chydweithio am gyfnod hefo chi, a gweld ei chymeriad ar ei orau.

Mainc yn y Gysgodfan Erbyn hyn, er syndod i rai o'r ardalwyr mae mainc o hen gapel MC Dinorwig wedi cael ei rhoi yn y gysgodfan. Tybed a yw hyn yn weddus? Nid i'w rhoi mewn cysgodfan y bu i'm teulu i, a theulu llawer iawn o'r ardal, gynnal a chadw yr hen gapel am flynyddoedd. Sarhad o'r modd mwyaf yw i mi weld peth fel hyn. Tybed faint fydd ei hoes yno?

Mae yna fwy nag un cyn hyn wedi cysgu yn y gysgodfan, efallai y bydd pethau yn edrych yn well iddynt hwy gan fod gorwedd ar fainc 'pitch pine' o bosibl, yn well na choncrit.

Ond os am fynd yno i ddal y bws mae'n rhaid peidio ac eistedd neu bydd y bws yn mynd heibio heb i'r gyrrwr eich gweld.

Cof am yr Amser a fu Y dydd o'r blaen fe fu imi gael galwad ffôn o Landudno gan un a fu'n byw yn Bryn Bela, Fachwen. Beryl yw merch y ddiweddar Mrs Katie Jones. Mae yn prynu yr Eco bob mis ac yr oedd wedi darllen bod Joan Rees, Bron

Eilian gynt, yn dathlu ei phen-blwydd yn 93 yn mis Medi. Yr oedd am imi ei chofio at Joan gan eu bod yn ffrindiau pennaf yn yr hen Ysgol Brynrefail a'i bod hithau wedi dathlu ei phen-blwydd 93 yn mis Medi hefyd. Bu imi ddweud wrth Joan ac yr oedd yn falch iawn o dderbyn ei chofion.

Mae'n braf clywed bod yr Eco yn cael ei ddarllen ar un o aelwydydd Llandudno A chofion annwyl Joan atoch chi, Beryl. Diolch am fod wedi bod yn help i'r ddwy gael cofio, yn 93 mlwydd oed, am eu dyddiau dedwydd yn yr hen ysgol. Pen-blwydd Hapus iawn gafodd Beryl wrth gofio yr hen amser hefo Joan.

Cydymdeimlo A'r Eco ar fin mynd i'r wasg daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Priscilla Williams, Wylfa. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cofion Mae Mr John Ellis Morris, Rhiwen, yn dal yn y cartref yn Llanberis, ond heb setlo i lawr er y gofal mawr y mae yn ei gael. Eisiau dod adref y mae o hyd. Ar yr 22ain o'r mis nesaf fe fydd yn 104, felly pwy wêl fai arno eisiau dod i'w gartref. Y mae wedi cael iechyd ardderchog ar hyd ei oes ac wedi treulio'r rhan fwyaf ohoni yn Rhiwen. Mr Morris, yr ydym i gyd yn cofio'n gynnes iawn atoch ac yn edrych ymlaen am y pen-blwydd.

Mae Mrs Megan Morris, Minffordd, wedi setlo i lawr ym Mhlas Garnedd ac yn canmol ei lle yn fawr ac yn dal i edrych yn dda. Pawb yn yr ardal yn anfon eu cofion atoch.

Marwolaeth Unwaith yn rhagor, ar y 13eg o Dachwedd, daeth tristwch i'r ardal pan ddaeth y newydd am farwolaeth hynod o sydyn Alun Hughes, Amlwch, sef gŵr Olwen Bryn, Tŷ'r Ysgol a thad annwyl iawn Caryl. Brawychwyd pawb yn yr ardal gan fod Alun newydd gymryd ymddeoliad cynnar o'i waith ac, fel anrheg ymddeoliad iddo fo a'r teulu, fe brynodd gar newydd.

Saer oedd Alun wrth ei alwedigaeth ac, wrth gwrs, mae person fel hyn yn cael digon o waith bob amser. Dyna lle'r oedd Alun wrth ei waith fel saer ar ddydd Llun, 13eg pryd y daeth diwedd taith bywyd. O

adnabod Olwen, gallaf feddwl sut roedd hi'n teimlo gan ei bod yn hynod deimladwy, amser dyrys iawn iddi hi a Caryl.

Bu'r angladd yn Eglwys Sant Elis, Amlwch, lle roedd y Parch Emlyn Williams yn gwasanaethu ac yr oedd yn rhaid i Caryl gael dweud ychydig eiriau. Daeth tyrfa ynghyd i'r eglwys ac yna i'r Amlosgfa ym Mangor, lle yr oedd tyrfa arall wedi dod ynghyd.

Roedd y gwasanaeth yma eto dal ofal y Parch Emlyn Williams, gyda Caryl yn talu teyrnged i'w thad. Yr oedd hi'n falch o gael gwneud hyn ac edrychai arno fel braint gan mai hi oedd unig blentyn ei rhieni.

Yn yr oriau a'r dyddiau tywyll yma mae Hannah, mam Olwen, yn gorfod bod yn andros o gryf ac, wrth gwrs, mae Hannah ac Olwen fel dwy chwaer. Bob tro y mae cyfle mae Olwen wrth ei bodd yn dod i Tŷ'r Ysgol ac yn gwneud yn sicr bod Hannah yn iawn. Maent wedi bod yn driw iawn i'w gilydd erioed.

Olwen ac Alun oedd y ddau olaf i gael eu priodi yng nghapel MC Dinorwig. Priodwyd hwy gan y diweddar Barchedig W.R. Williams, Y Felinheli, ac yr oedd yn ddiwrnod hapus a hwyliog iawn. Rwyf yn cofio i WR fod wedi gadael ei sbectol yn y car yma yn Bro Elidir a bu'n rhaid i Emrys redeg i fyny i'w nôl. Tra roedd Emrys yn nôl y sbecs fe ddaeth hiwmor WR i'r golwg ac Olwen ac Alun wedi anghofio eu nerfau ac yn cael tipyn o hwyl efo WR.

Dro arall, Olwen, rwyf ti a dy fam a finau yn cofio pryd yr oeddem yn cysgu hefo plant yr Urdd yn y Ganolfan a tithau yn cau tynnu y sgidiau sodlau mawr oddi ar dy draed ac yn mynd i'th wely ynddynt a'r hwyl a gawsom y noson honno.

Olwen a Caryl, yn ystod y dyddiau tywyll dyrys yma, yn sicr fe ddawn gwên fach i'r wyneb wrth i chi gofio yr oriau melys a fu ichi dreulio hefo'ch gilydd fel teulu.

Tra yn cydymdeimlo yn fawr hefo chi a'r teulu oll yn eich galar a'ch hiraeth, cofiwch fod nerth i'w gael oddi uchod.

Nid yw Iesu'n well yn unman Nag yng ngrym y storom gref, ac o gofio hyn yr wyf yn sicr y cewch nerth ac fe fydd yr hiraeth yn pellhau.

Angladd y ddiweddar Eluned Roberts

Ary 10fed o Dachwedd yng Nghartref Plas Maesincla, Caernarfon, gynt o Maes Gwylfa Deiniolen, bu farw Eluned Roberts a hithau yn 92 mlwydd oed. Bu ym Maesincla ers pedair blynedd a hanner a derbyniodd ofal arbennig yno a diolchir i'r holl staff am eu caredigrwydd mawr. Daeth tyrfa dda i'w chynhebrwng yn Eglwys Crist Llandinorwig brynhawn Gwener, 17eg o Dachwedd, lle y gwasanaethwyd gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon. Talwyd teyrngedau arbennig iddi gan ei mab, Aneurin, a Canon Thomas. Roedd yn fam a mam yng nghyfraith ofalus i Tecwyn a Flo, Linda ac Eric ac Aneurin a Lesley; yn Nana gariadus i Martin, Mandy, Meinir, Gareth, Iolo, Catrin a Ffion ac yn hen Nana falch i'w holl or-wyrion a'i gor-wyresau; yn chwaer addfwyn i William John, Goronwy ac Alun ac i'r diweddar Harri a Ralph ac Olwen a fu farw pan yn bump oed ac yn chwaer yng nghyfraith a modryb hoff. Ganed Eluned ar aelwyd Tan Garret yn Ninorwig, un o'r aelwydydd uchaf yng Nghymru. Roedd ar yr aelwyd saith o blant ac Eluned oedd yr ail blentyn. Y rhieni oedd Joseff a Katie Lewis,

hanai Joe, fel yr adwaenid ef, o Fôn ond daeth i fyw i Garreg Lydan, sefytydd o dan Tan Garret, ac roedd ei briod Katie o Fryn Sardis islaw. Nyrsio ar hyd ei hoes fu hanes Eluned, aeth i Birmingham pan yn 15 oed i nyrsio a cychwynnodd hynny ar yrfa hir a disglair yn y maes gofal. Bu'n nyrsio yn Ysbyty Llandudno, Ysbyty'r Bwthyn yng Nghaernarfon ac yna yn Uned Gofal Arbennig, Ysbyty Dewi Sant ym Mangor. Ar ôl ymddeol yn drigain oed, treuliodd ugain mlynedd wedyn yn cynorthwyo gwaith y WRVS. Mae i'w chanmol am ei hegni a'i hymroddiad. Yn drist iawn bu farw ei phriod, sef Tom Roberts, Trysgol, yn 1969 yn 45 oed; roedd hyn yn ergyd drom iddi hi a'r teulu a bu Eluned yn wraig weddw am 48 mlynedd. Gwraig a pherson di-ffws ydoedd, roedd yn hynod garedig a phlant oedd ei hoffter mwyaf ac fe'i collir yn fawr. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Macpela. Aeth rhoddion er cof amdani tuag at Gronfa Preswylwyr Plas Maesincla; roedd y lluniaeth yn y Cwt Band gerllaw a'r Ymgymrwyr oedd Meinir o Dylan Griffith, Penisarwaen.

Diolch Dymuna teulu Eluned Roberts ddiolch i ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a negeseuon o gydymdeimlad a ddangoswyd yn dilyn colli mam, chwaer a ffrind i amryw. Diolch am y rhoddion o gyfanswm £856 tuag at Breswylwyr Plas Maesincla lle bu'n cael gofal arbennig am bedair blynedd a hanner.

Eglwys Crist, Llandinorwig Fel arfer ar Noswyl y Nadolig (Rhagfyr 24) am 6yh bydd Cymun y Nadolig yr yr Eglwys. Y Canon Idris Thomas, Glanrafon fydd yn gwasanaethu.

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth Cymraeg hwn i bob enwad ac i holl eglwysi Bro Eryri.

Eglwys Crist Daeth criw da ynghyd i Eglwys Llandinorwig ar fore Sul, Rhagfyr 3ydd, i wasanaeth yn seiliedig ar Yr Adfent yng nghwmni plant yr Ysgol Sul. Roedd y gwasanaeth wedi ei lunio a'i arwain gan Y Canon Idris Thomas. Yn ystod y gwasanaeth agorwyd ffenestri'r Calendr Adfent gan Cynan, Efa Jên a Guto. Goleuwyd canhwylau'r Adfent gan Glesni a Deion. Canwyd Cân Canhwylau'r Adfent a'r organyddes oedd Eleri Bean. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan rieni'r plant, sef Pamela Williams, Ffion Jones, Emma Chappell a Rhianwen Jones. Diolch i athrawon a phlant yr Ysgol Sul am eu gwaith ardderchog. Mwynhawyd y gwasanaeth gan bawb.

Llongyfarchiadau i Michael

Owen-Bellini, 6 Rhes Faenol, ar ennill gradd Doethuriaeth mewn Peirianeg ym Mhrifysgol Loughborough. Ddechrau'r flwyddyn, bydd Michael yn teithio i Colorado yn yr Unol Daleithiau, lle mae wedi sicrhau cychwyn i'w yrfa ym myd ymchwil.

Llongyfarchiadau Mawr i ti a phob dymuniad da draw yn Colorado.

Profedigaeth

Estynnir ein cydymdeimlad at teulu Dilys Davies neu Dilys Twins fel yr adnabyddir hi o 55 Pentre Helen a fu farw ar ôl brwydr ddewr iawn. Bydd colled fawr ar ei hôl i'w theulu a ffrindiau.

Estynnir hefyd ein cydymdeimlad at Alwyn ac Eirwen ar ôl colli eu mam, Mrs Priscilla Williams, Wylfa. Roedd Mrs Williams wedi dathlu ei phen-blwydd yn 103 yn ddiweddar ac mi fydd colled fawr ar ei hôl.

Dymuniadau Nadolig Dymuna'r Cynghorydd Elfed Williams Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda i holl drigolion yr ardal a diolch i bawb am eu cefnogaeth iddo yn ystod y flwyddyn.

Cae Bwthyn Mae'n ymddangos bod y Cyngor Sir yn ystyried dyfodol y cae a'r ystafell newid gan nad oes defnydd cyson iddo bellach. Mi fyddai colled fawr i'r pentref pe byddai'r adnodd cymunedol pwysig yma hefyd yn diflannu. Un ffordd o sicrhau ei ddyfodol yw ail gychwyn clwb pêl-droed yn y pentref, yn dîm oedolion, mwy o dimau ieuencid a phlant, neu tîm merched. Os

oes unrhyw un efo ddiddordeb, mi fyddai'r Cynghorydd Elfed Williams yn fodlon pasio eich manylion ymlaen.

Cyfarchion y Tymor Dymuna Miss Cissie Rowlands, Gorlan y Bont, a Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Nadolig dedwydd

iawn a Blwyddyn Newydd lewyrchus i'w teulu, ffrindiau a phawb ym mro'r Eco gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni, a diolch am bob cymwynas a dderbyniodd y ddwy yn ystod y flwyddyn sydd yn dirwyn i ben. Diolch yn fawr iawn i bawb.



Goleuadau Nadolig Daeth nifer fawr i weld y goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen eleni yn y pentref. Cafwyd adloniant gan gôr Ysgol Gwaun Gynfi a Seindorf Deiniolen cyn i frenhines Gwyl Deiniolen gael y fraint o roi'r goleuadau ymlaen cyn gorffen y noson gyda sioe tân gwyllt. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi a diolch i'r Wellington am baratoi lluniaeth.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 17 o Hydref

Adroddodd ar y golled yn ddiweddar i'r ardal o farwolaeth Brian Jones, cyn aelod o'r Cyngor yma a Chyngor Gwynedd. Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor tuag at y teulu a diolchwyd i'r Cynghorydd Martin Jones am gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn yr angladd.

Cydymdeimlwyd hefyd a'r Cynghorydd Rhys Parry a'r teulu am eu profedigaeth diweddar.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod dau o'r llwybrau cyhoeddus angen eu torri. Nodwyd hefyd fod nifer o goed wedi dod lawr yn yr ardal gan gynnwys rhai wrth ymyl Pwll Moelyn ac ar y llwybr ger Ogwen Y Fynwent

Mewn adroddiad gan o Bwyllgor y Fynwent, nodwyd fod llwybrau'r fynwent angen eu glanhau a dylid cael pris am wneud y gwaith.

Nodwyd hefyd fod un bedd yn y fynwent gyda blodau wedi'u plannu'n uniongyrchol ar y tir a fod hyn yn groes i reol (12) o reolau'r fynwent.

Penderfynwyd:

- a) Derbyn y pris am lanhau'r llwybrau yn y fynwent a'r ochrau:
- b) Byddai'r Cyngor yn cysylltu a'r teulu'r i'w hysbysu o'r rheolau ac i'w annog i beidio plannu'n uniongyrchol ar y tir.

Coed Nadolig

Adroddwyd fod y coed Nadolig wedi eu harchebu.

Caeau Chwarae

Yn sgil y drafodaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd gyda Chyngor Gwynedd am y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned dderbyn cyfrifoldeb am gaeau chwarae Cwm y Glo a Dolafon, penderfynwyd y byddai'r aelodau ar gyfer Cwm y Glo yn cyfarfod i drafod syniadau ar gyfer cwestiynau i roi ar holiadur i weld beth yw dymuniadau'r gymuned.

Penderfynwyd derbyn dyfynbris a gafwyd ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar Barc Sglefrio Cwm y Glo, yn unol a'r hyn a adnabyddir ar yr asesiad risg.

Ar ôl ystyried pa gamau i'w cymeryd yn dilyn difrod i offer ar Gae Chwarae Nantyglyn, penderfynwyd gofyn i'r heddlu ymdrin a'r mater.

Polisi Iaith y Cyngor

Cafwyd sawl trafodaeth ar y polisi a penderfynwyd ei roi yn un o eitemau cyntaf ar agenda cyfarfod Tachwedd.

Un funud fach ...

LLYGAID CLUST A CHEG

Gweld, clywed, dweud. Dyna dri gair sy'n crynhoi profiad y bugeiliaid sy'n rhan o stori geni Iesu. Mi welson nhw'r angel a disgleirdeb gogoniant Duw; mi glywsom nhw gan yr angel y newyddion da am eni'r Gwaredwr, ac mi glywsom nhw gôr o angylion yn moli Duw; ac mi ddywedon nhw wrth ei gilydd, 'Gadewch i ni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd'. Wedi cyrraedd Bethlehem, mi welson nhw Iesu, a dweud yr hyn yr oedden nhw wedi ei glywed am y plentyn hwn. Ac yna, aethant oddi yno gan ddweud geiriau o foliant i Dduw am y cyfan yr oedden nhw wedi ei glywed a'i weld. Heb os, pobl y gweld a'r clywed a'r dweud ydyn nhw.

Mae'n Ddolg unwaith eto a ninnau, gobeithio, hefyd yn bobl y llygaid a'r glust a'r tafod. Ar un wedd, wrth gwrs, dyna fu'r rhan fwyaf ohonom ers mis neu ddau. Mae'n anodd, os nad yn amhosibl, peidio â gweld yr holl addurniadau a'r goleuadau. Mae'r un mor anodd peidio â chlywed y carolau a'r caneuon Nadoligaidd a'r hysbysebion hollbresennol. Ac mae gan y rhan fwyaf ohonom rywbeth i'w ddweud am yr holl ffws a ffwdan a wneir o'r ŵyl hon.

Wrth ddymuno Nadolig Llawen i chi, ac wrth ddiolch i bawb ohonoch sy'n ddigon caredig i ddarllen y golofn hon o fis i fis, mi garwn feddwl y byddwn ninnau eleni yn gweld a chlywed a dweud. Trwy ffydd, mae modd i ni weld rhyfeddod y babi bach a orwedda'i mewn preseb, ond a oedd yr un pryd yn wir Fab Duw. Trwy'r Beibl, Gair y Duw byw, cawn glywed popeth sydd angen i ni ei wybod am y person hwn. A thros yr Ŵyl fe glywn ni – yn ein darllen personol neu trwy ddarllen cyhoeddus mewn gwahanol gyfarfodydd – dystiolaeth Duw i'w annwyl Fab a'r gwaith y cafodd ei anfon i'r byd i'w wneud. Ac os byddwch yn gweld a chlywed, mynnwch ddweud wrth eraill am y person hwn a'r hyn yr ydych wedi dod i'w wybod a'i werthfawrogi amdano. Pwy a ŵyr na fydd ambell un o'ch cymdogion a'ch ffrindiau chi yn gweld a chlywed pethau newydd am Iesu Grist am eich bod chi wedi mentro dweud rhywbeth wrthyn nhw am y Gwaredwr yr ydych chi yn credu ynddo ac yn ei garu?

Edrychwch ar y baban; gwrandewch ar y dystiolaeth amdano; dywedwch wrth eraill am ei fawredd, a dywedwch wrth Dduw mor ddiolchgar ydych amdano.

JOHN PRITCHARD

Bro'r Eco Nadolig 2017

Un dilyw yw ein dyled, - am hynny
rhaid mynnu adduned
i'n cryf ariannu eu cred,
cymwynas yw cymuned.

Richard Llwyd Jones

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

GLYNTWROG LLANRUG
671191

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng



NGHARTREF



Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN AFON ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON LLANRUG, Ffôn: 675523



Hunanhyder

Profiad ‘Steddfod Ysgol – Marged Rhys

Wrth i'r Eco fynd i brint ar gyfer y rhifyn hwn roeddwn yn paratoi ar gyfer beirniadu Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Dyma'r tro cyntaf i mi fynd i'r eisteddfod ers i mi fod yn cystadlu ynddo yn frwd yn 2008.

Bron ddeg mlynedd yn ddiweddarach roeddwn wedi gwirioni o dderbyn gwahoddiad i fod yn feirniad cerdd yn y 'steddfod eleni. Yn ôl daeth lluo o atgofion o'r hwyl yn paratoi, a'r siomedigaeth o glywed nad oedd Elidir (y tŷ gorau!) wedi cipio'r gwpan yn ddim un o'r 8 eisteddfod ysgol i mi gystadlu ynddi!

Digon parod o'n i felly i ddychwelyd i Brynrefs i geisio profi'r cyffro unwaith eto, gan geisio, wrth gwrs, bod yn ddiuedd.

Roeddwn yn rhyfeddu, wrth siarad gyda ffrindiau aeth i ysgolion dros Gymru gyfan, nad oedd 'steddfod ysgol na'r mabolgampau yn chwarae rhan fawr o'u profiad ysgol uwchradd gan gysidro rhan mor fawr roedd o wedi chwarae yn fy arddegau i. Felly, wrth feddwl yn ôl, wnes i ddechrau cysidro'r holl wersi gwnes i eu dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Balchder a brawdoliaeth

Mae bod yn rhan o dŷ yn rhan bwysig o eisteddfod ysgol, a mabolgampau. Mae'n rhoi pwnc cyffredin i grŵp na fuasent wedi cael un rhywbeth yn gyffredin fel arall. Mae'n dod a chriw o bob oedran at ei gilydd i gyrraedd yr un nod. Drwy dynnu hierarchaeth gymdeithasol blwyddyn ysgol allan o'r sefyllfa mae'n cael gwared â 'statws quo' a'n cynnig cyfle i gyd-dynnu. Y balchder a'r frawdoliaeth sy'n dod ar ddiwedd yr holl brofiad, yn falch o'r holl waith caled rydych chi fel grŵp wedi ei roi, yn falch o berfformiadau rhywun bum mlynedd yn ieuengach na chi nad oeddech chi'n gwybod eu henwau bythefnos ynghynt. A'r profiad o gyd-deimlo ar ddiwedd y dydd, boed yn llwyddiant neu golled, sydd mor bwerus.

Rydym yn dueddol o newid gymaint yn ystod ein hamser yn yr ysgol uwchradd –newid pynciau, newid blas cerddorol, newid steil gwallt, newid ffrindiau. Ond y newid pwysicaf yw'r newid yn hunanhyder rhywun. Gall fod yn un negyddol, gyda phrofiadau gwael hierarchaeth gymdeithasol blwyddyn ysgol yn ddigon i ddisodli rhywun. Ond rwy'n credu bod 'steddfod ysgol yn galluogi i rywun ddatblygu hunanhyder mewn pob math o ffyrdd y tu hwnt i'r hyder i gamu ar lwyfan. Mae'n gyfle i brofi sgiliau arwain, i gymdeithasu gyda phobl tu allan i gylch ffrindiau arferol, i ymwneud â blynyddoedd hyn na thi, ac yn rhoi cyfle i ti fod yn greadigol a gwthio'r ffiniau. Drwy gael profiadau newydd fel hyn, sy'n anaml yn bosib drwy system gwersi ffurfiol, mae modd i rywun ddarganfod nodweddion gwahanol o'u personoliaeth nad oeddent wedi cael y cyfle i'w profi.

Y gallu i golli

Mae cystadlu, boed ar lwyfan 'steddfod bentref neu ar gae pêl-droed, yn rhan o fagwraeth y rhan helaeth ohonom ni Gymry Cymraeg. Ond nid yw cystadlu yn rhan o fywyd pob plentyn na pherson ifanc. Ac fel y gwyddwn, nid yr ennill ond y cystadlu sy'n bwysig. A gyda'r cystadlu daw'r gallu i golli, a cholli'n dda. Er efallai fod gen i ychydig o ddrwg deimlad nad oedd Elidir wedi cipio'r gwpan UN waith yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol (wir yr, dwi ddim yn sur!), roeddwn i'n gwybod ar y pryd nad ennill oedd pwrpas y cystadlu. Arwain, gwthio ffiniau, dathlu doniau, mwynhau a chreu ffrindiau oedd yn tanseilio'r holl brofiad. A'r gallu i wir longyfarch y tŷ buddugol ar y diwedd y dydd oedd y wers bwysicaf oll.

O'r holl wersi wnes i eu mynychu yn Ysgol Brynrefail, y sgiliau hyn gwnes i'w datblygu y tu allan i'r dosbarth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol i mi, yn y gwaith ac yn gymdeithasol hyd heddiw. Dwi'n poeni felly - pan glywa i am y prinder athrawon, am yr holl newid cwricwlwm, am y pwysau cynyddol ar brofion - fod y traddodiad cryf yma o'r eisteddfod ysgol yn dirywio'n ara' bach. Mewn oes pan mae technoleg a rhith-gymunedau yn chwarae rhan mor fawr ym mywydau plant a phobl ifanc, mae'r cyfle i gamu tu hwnt i sgriniau mor hanfodol bwysig yn natblygiad person ifanc.

Felly'r oll ddyweda i yw 'hir oes i 'steddfod ysgol Brynrefs!'

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

garth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Jolabokaflod

“Dilyw Llyfrau'r Nadolig”

Chwilio am syniad gwahanol i ddathlu'r gwyliau? Beth am efelychu traddodiad Gwlad yr Ia, sef gwyl Jolabokaflod. Ar noswyl Nadolig yn y wlad honno mae'n arferol rhoi llyfr yn anrheg, a phawb o'r derbynwyr yn treulio gweddill y noson yn y gwely, yn darllen y llyfr ac yn bwyta siocled!

Cymaint yw poblogrwydd y traddodiad hwn, mai'r cyfnod rhwng Medi a Thachwedd yw'r cyfnod prysuraf yn holl weisg y wlad. Dyma'r cyfnod pryd y bydd mwyafrif llyfrau'r wlad yn cael eu cyhoeddi. Ac ystyr Jolabokaflod yw dilyw llyfrau'r Nadolig am fod y siopau yn gorlifo o wahanol lyfrau!

A pha well ffordd o ddathlu noswyl Nadolig na llyfr (Cymraeg wrth gwrs), gwely a siocled.

PENISARWAUN ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Eglwys St Helens

Sul y Cofio Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa Undebol teimladwy yn yr Eglwys am 10.45yb a braf oedd gweld cynulleidfda dda lle roedd aelodau ac athrawon ysgol Sul Bosra ac aelodau'r Eglwys yn cymryd rhan drwy gyhoeddi yr emynau, darlenniadau o'r Ysgrythur ac darllen barddoniaeth. Am 11yb aeth pawb allan i gynnal gwasanaeth byr wrth y Gofeb a gosod Torch a chroesau ar y gofeb i gofio am bawb o'r pentref a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd. Darllenwyd enwau pawb a cynhaliwyd dau funud o dawelwch i gofio amdanynt. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y gwasanaeth ac a gymerodd ran.

Trefn gwasanaethau y Nadolig

Dydd Sul 10fed am 11yb: Gwasanaeth Naw Llith a Charol
Dydd Sul Rhagfyr 17eg: Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid

Noswyl y Nadolig Dydd Sul Rhagfyr 24ain:

11yb: Gwasanaeth Preseb i blant ac theuluoedd;
9yh: Cymun Bendigaid y Nadolig

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Eglwys Agored

Dydd Iau Rhagfyr 21ain: 3yp-7yh

Mae croeso i bawb alw i mewn i'r Eglwys i oleuo kannwyll yng ngolau y goeden Nadolig i gofio am anwyliad, cleifion, milwyr / teulu, yr unig, personau sydd ar goll, y digartref, tlodion, gwledydd a'u pobl sydd mewn argyfwng neu unrhyw achos personol arall.

Bydd carolau Cymraeg poblogaidd yn cael eu chwarae yn y cefndir. Darperir paned o de neu goffi a mins pei am ddim.

Bingo Arian

Cynhelir y bingo arian yn neuadd yr Eglwys nos Fercher, Rhagfyr 6ed, ac un arbennig ar gyfer y Nadolig ar Ragfyr 13eg am 7yh

Gyrfaon Chwist

Bydd y gyrfaon chwist yn ail ddechrau ar ol tymor y Nadolig yn neuadd yr Eglwys nos Fawrth, Ionawr 9fed, am 7yh

Diolch Hoffai swyddogion yr Eglwys ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau hael drwy'r flwyddyn. Dymunwn Nadolig Llawn a blwyddyn newydd dda i bawb.

CWMY GLO

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau gyda aelodau o'r cyfarfod gyda'r nos yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, ar 21 Tachwedd. Croesawyd pawb gan Auriel a chafwyd adroddiad ganddi am y cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mwynhawyd y cinio Nadolig gan bawb. Rhoddwyd y raffl gan Auriel ac fe'i henillwyd gan Dorothy. Diolchwyd i Auriel am drefnu'r cinio gan Mr Richard Jones. Bydd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys y Santes Fair ar 19 Rhagfyr.

Cyfarchion y Tymor Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Apêl Arddangosfa Ffotograffau o Hanes Rhiwlas/ Pentir/Carfan

Mae Cynrig a Cadi mewn cydweithrediad â'r Neuadd Bentref yn bwriadu cynnal arddangosfa yn olrhain hanes yr ardal drwy ddefnyddio hen ffotograffau a dogfennau perthnasol eraill.

Byddem yn falch pe baech yn chwilota mewn cypyrddau a droriau am ddeunyddiau y gellir eu defnyddio. Hefyd, cysylltu gyda theulu a ffrindiau sydd nawr yn byw tu allan i'r ardal rhag ofn bod ganddynt hwy bethau i'w cynnig. Os yn fodlon inni wneud defnydd o'ch eiddo ar gyfer yr arddangosfa, a fydddech cystal â nodi'n gryno gwybodaeth megis dyddiau ac enwau ar gefn y gwrthrych.

Sylwer ar ddau ddyddiad pwysig:

1. *Casglu Dydd Sadwrn, 20fed Ionawr 2017 rhwng 11yb a 3yh*

Cyfle i ddod a'r deunyddiau i'r Neuadd er mwyn cael eu sganio ar gyfrifiadur. Felly, gellir mynd a'r deunyddiau gartref gyda chwi.

2. *Arddangosfa Dydd Sadwrn, 3ydd Mawrth 2017 rhwng 10yb a 3yh*

Cyfle i weld yr arddangosfa dros baned a sgwrs. Ni fydd tâl mynediad ond gellir cyflwyno rhodd er budd y Neuadd.

Sioe lwyddiannus yn dychwelyd i ysgolion Gwynedd



Yn ddiweddar fe wnaeth menter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd drefnu i ddisgyblion 14 o ysgolion cynradd y sir gwrdd â'r Brodyr Gregory a'r Criw, fel rhan o sioe deithiol i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion amgylcheddol, ac yr oedd disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen wedi mwynhau'r profiad.

Mae'r sioe deithiol bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, ac yn tynnu sylw at faterion megis taflu sbwriel, baw cŵn a'r angen i leihau, ail-ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae'r perfformiadau yn rhai ysgafn a difyrus gyda'r cymeriadau 'Ted Taclus'ac 'Eli Eco' yn cynorthwyo'r brodyr, ynghyd â'r pypedau poblogaidd Siôn a Siân.

Dywedodd Jonathan Gwyn Neale, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd: "Mae'r sioeau yn rhoi cyfle prin i'r plant profi perfformiad byw gan ddiddanwyr proffesiynol yn yr ysgol. Mae'r plant hefyd yn ymateb yn dda iawn i'r agweddau o hiwmor a slapstic o'r sioeau a dwi'n siŵr y byddent yn cofio hyn - a'r negeseuon amgylcheddol - am weddill eu bywydau."

Trefnwyd y sioe grwydrol amgylcheddol gan fenter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. I ddarganfod mwy am Drefi Taclus yng Ngwynedd, cysylltwch â Swyddog Trefi Taclus y Cyngor ar 01766 771000 neu drwy e-bost trefitaclustidytowns@gwynedd.llyw.cymru

HUW OWEN

PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams


London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO


YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574



Ar ben arall i'r lein



Gwasgwrthegys, Siliad, Gwynfa a Chym - Rhydym Afon Seint

Heddiw cefais glywed fod y rhwydi wedi cael ei gosod yn Afon y Bala at gasglu grawn y torgoch, erbyn fydd hyn yn cael ei ddarllen gobeithio bydd tua 15,000 o wyau yn glyd yn neorfa'r Cynrig ger Aberhonddu. Trueni na fuasai rhywyn yn Cyfoeth Naturiol yn dangos tipyn y synwyr a'r weledigaeth i defnyddio'r ddeorfa lleol yng Nghrawia. Ond a oes unrhyw synwyr mewn biwrocratiaeth 'dwch?

Nos Sadwrn 2 Rhagfyr cefais noson ardderchog yn y Galeri, ble lansiwyd llyfyr Hanes Cychod Salmon Caernarfon (Gwasg y Bwthyn) gan Alun Lewis Jones, Felinheli. Cyflwynir y llyfr i staff a meddygon Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Wel dyna chi noson dda, 'roedd y glaeri dan ei sang. Dros 300 wedi mynd a dod yn ystod y weithgaredd medda'r Galeri. Record o bosib. Prynwch gopi da chi – werth chweil. Mae Alun y dweud fod un arall ar y ffordd. Mi gefais gyfle i gael sgwrs ag aml un 'roeddwn heb eu gweld ers beth amser, a tydio'n beth rhyfedd mae'n nhw i gyd yn dal i feddwl am samons!

Wel dyna hi bron, blwyddyn arall wedi hedfan i rhywle a mae pethau yn dechrau arni yn barod at 2018. Un or materion pwysicaf fydd rhaid dechrau ei daclo ydi'r budreddi sy'n dechrau amlygu ar Lyn Cwellyn. 'Rydym wedi tynnu sylw ar hyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, dim byd o'i le yw'r ymateb. Ond i ni fel 'sgotwrs sydd o gwmpas y lle yn aml 'rydym yn gweld y newidiadau 'ma, dyma'r union ymateb a gawson yn 1990 gan ei ragflaenwyr ynglyn a pryderon pysgotwyr i gyflwr Padarn. Mae pawb yn ymwybodol be ddigwyddodd yn y fan hono. Ia dim i boeni am dan yn wir!

Wrth gau am y flwyddyn hoffwn ddiolch am eich cefnogaeth a'r diddordeb yn y byd pysgodfaol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Arbennig i chwi oll.

Huw Price Hughes



BLE MAE NHW BELLACH?



Daeth y llun yma i'r fei wrth glirio cwpwrdd yn ddiweddar. Dyma dim dan 11 oed Bethel yn nhymor 1991/2. Yr achlysur oedd y diweddar Richard(Dic) Hughes yn cyflwyno kit i'r hogiau. Roedd pob un o'r chwaraewyr yn byw yn y pentref ac aeth pump ohonynt ymlaen i gynhyrchioli timau hŷn yr ardal. Cafodd dau y wefr o godi'r Junior Cup yn lifrau Bethel. Aelodau'r tim oedd:

Rhes Gefn (o'r chwith): Gareth Burkett, Dylan Thomas, Brian Griffiths, Dafydd Jones, Gethin Williams, Dyfan Elis, Richard Charles Parry, Richard Hughes.

Rhes Flaen (o'r chwith); Andrew Williams, Irfon Hughes, Mark Williams, David Peters, Meilyr Emrys, Geraint Owen.

Ras Hwyl Noson Galan HWB Eryri CIC

Bwyta gormod o fins peis? Wedi 'laru chwarae efo'ch tegannau? Ysu am ddigwyddiad i'ch tynnu allan o'r ty a chael chwa o awyr iach?

Dyma gyfle gwyh i chi ymuno â Ras Hwyl Milltir HWB Eryri CIC. Digwyddiad Noson Galan yw hwn, sydd yn ei ail flwyddyn o hybu ysbryd cymunedol trwy ddenu pobl, eu teuluoedd a'u ffrindiau i redeg strydoedd Llanberis yn ras olaf 2017.

Fel y llynedd, mi fydd y ras yn cychwyn am 5yh ar y 31 o Ragfyr 2017. Os am gystadlu, yna rhaid cofrestru ymlaen llaw ar y diwrnod. Caiff cofrestru ei gynnal o 3 - 4:45yp yng Nglwb Cymdeithasol Llanberis (Social Club) gyda staff a gwirfoddolwyr HWB Eryri. I ychwanegu at yr hwyl, rydym yn annog pob cystadleuydd i redeg mewn gwisg ffansi.

Eleni, cawn wledd o wobrau gwahanol – nifer ohonynt yn rhai lleol, sy'n helpu'r economi Gymreig ond sydd hefyd yn caniatáu i bobl ymweld â llefydd na fyddent yn ymweld â nhw fel arfer. Os ydych yn un am redeg yn rheolaidd, byddwch yn falch o gael gwybod mai un o'r gwobrau yw ticed i redeg ras 6ed Llwybr Portmeirion 2018! Efallai na fuoch chi 'rioed yn y Mynydd Gwefru – dyma wobrar arall sy'n rhoi'r cyfle i chi fynd am ddim efo'r teulu. Mae hefyd dau docyn Rheilffordd yr Wyddfa y gellir eu defnyddio yn

y flwyddyn newydd a 'dreigiau bach' – gwaith celf gwyh gan yr artist lleol Dylan Parry yn barod i'w cipio.

Os ydi'r ras yn apelio, yna anelwch tuag at safle Llafn y Cewri, a chewch fwynhau sioe tân gwyllt gwyh dros y llyn. Mi fydd y tân gwyllt yn cychwyn yn brydlon am 6yh.

Ar ôl hynny, i chi gael ail-gynhesu, beth am fynd draw i'r Clwb Cymdeithasol i ymuno â'r noson Bingo am 6:30yh a chael seibiant ar ôl eich ymdrechion? Bydd nifer o leoliadau o gwmpas y pentref yn cynnig adloniant. Cofiwch wrando'n astud ar glychau Eglwys St. Padarn, a fydd yn canu am hanner nos union ar ddiwrnod ola'r flwyddyn. #ffonclyfarafideo! Yn bwysicaf, cofiwch ddatlu dyfodiad 2018 yn gall, ond nid yn rhy gall. Wedi'r cyfan, pa mor gall all hwnnw sy'n rhedeg liw nos rownd pentra' mewn unwisg anifail fod?...

Am fwy o wybodaeth, bwrwch olwg ar ein gwefan hwberyri.co.uk neu cysylltwch drwy anfon neges ar Gweplyfr HWB Eryri, Trydar @hwberyri neu drwy ebostio info@hwberyri.co.uk . Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi i'r hwyl!

O.N. Ac i'r rhai ohonoch sydd wedi bwyta gormod o fins peis ac yn methu rhedeg, beth am droi allan i helpu stiwardio ar strydoedd y pentref? Byddem yn ddiolchgar o unrhyw gymorth.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

AVW
ADVANCED VEHICLE WORKSHOP

Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porsche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

BOSCH
Service
Car Service
For everything your car needs.

Which?
Trusted trader

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Bydd Ras Hwyl Clwb Rhedwyr Eryri o amgylch Llyn Padarn yn cael ei chynnal ar fore Sul, 17eg o Ragfyr. Croeso i bawb, boed yn aelod neu beidio. Croeso hefyd i gystadlu mewn gwisg ffansi a cheisio dyfalu amser Sion Corn.

Mae Clwb Peldroed Llanrug yn dathlu ei benblwydd yn 50 oed yn 2018. Cafodd y Clwb ei ail-sefydlu yn 1968, yn dilyn rhai blynyddoedd o absenoldeb o'r hen "Caernarfon and District League". I ddathlu'r penblwydd mae crys polo ar werth am £25. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor. Cawn fwy o hanes y dathlu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Gweler yr Atebion ar dudalen...



grid
76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalesigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Chwaraeon



Sgio

Yn dilyn eu llwyddiant ym Mhencampwriaeth Sgîo Ysgolion Cymru cafwyd diwrnod gwerth chweil yng nghystadlaeth Pencampwriaeth Sgîo Ysgolion Pydain 2017 ym Mhontypwl ar yr 19eg o Dachwedd. Y bedair oedd yn rhan o'r tîm oedd Heledd Swyn, Alys Chisholm, Molly Chisholm ac Eirwen Howorth.

Er na ddaeth llwyddiant i'w rhan gwnaethont yn arbennig i gyrraedd y bencampwriaeth gan fwynhau'r profiad yn fawr. Yn anffodus roedd hi'n amhosib i Molly gymryd rhan gan ei bod wedi torri ei choes yn ddiweddar!



Llongyfarchiadau i Bedwyr Jones, Fachell, Seion ar gael ei dderbyn yn aelod o garfan datblygu Rygbi Gogledd Cymru (RGC).

PEL-DROED LLEOL

A'r golofn hon yn mynd i'w gwely prin fu y gemau oherwydd y tywydd ers y rhifyn diwethaf. Gohirwyd y gêm hir-ddisgwyliedig rhwng Llangefni a Llanrug yng Nghwpan Cookson ddwy waith. O dan y rheolau trosglwyddwyd y gêm i Eithin Duon, a chafwyd gem hynod o gyffrous. Llanrug yn mynd ar y blaen o ddwy gol; Llangefni'n taro'n ol gyda tair gol, ac yna Llanrug yn cipio buddugoliaeth a lle yn y rownd nesaf gyda dwy gol mewn amser ychwanegol. Yn anffodus, nid oes gêm ddarbi gynghreiriol rhwng Llanrug a Llanberis wedi ei threfnu dros yr Wyl. Os bu tymor i'r fath drefniant dyma hi gyda'r ddau dim yn uchel yn y gynghrair ac ar radiadau da. Cyfle a fethwyd i elwa yn ariannol yn sicr. Ond mae un gêm fawr ar y gorwel ar Eithin Duon yn Nhlws F.A. Cymru. Yn rownd yr 16 olaf bydd Llanrug yn herio un o geffylau blaen Cynghrair Ardal Wrecsam sef Chirk AAA. Hon fydd y drydedd waith i Lanrug herio tim o ardal Wrecsan eleni, gan ennill

un a cholli un. Mae'r tro olaf i'r ddau yma herio eu gilydd yn fyw yn y cof. Chwip o gêm, amser ychwanegol, torf fywiog â Llanrug yn cipio'r Tlws draw ar y Belle Vue yn y Rhyl, dau dymor yn ôl. Rwy'n siwr bydd torf dda ar y diwrnod ac ambell un yn teimlo y gallai'r ennillwyr gyda dewis ffafriol fynd yn bell yn y gystadlaeth. Dal yn sigledig yw perfformiadau Waunfawr yng Nghyngrair Gwynedd. Maent yn colli nifer o gemau o un gôl yn unig. Diffyg canolbwyntio efallai. Gohirwyd ambell gêm gan dim Merched Bethel hefyd ond maent yn dal i eistedd ar y copa yng Nghyngrair Gogledd Cymru. Un peth braf i'w nodi yn y gynghrair hon yw fod dyddiau y 'stid go iawn' parthed y sgoriau yn bethau prin iawn. Arwydd o hyfforddiant pwrpasol efallai. A pha well sbardun i'r merched na gweld ein tim cenedlaethol i ferched yn arwain y tabl yn gemau rhagbrofol Cwpan y Byd.